Rhif:  WG42068

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Safonau ansawdd gorfodol ar gyfer cartrefi newydd

**Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021**

Creu Mannau a Chartrefi Prydferth

Mehefin 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

## Crynodeb o'r ymatebion

### 1. Cyflwyniad

1.1 Tai yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru oherwydd mae byw mewn cartref clyd yn helpu pobl i gadw'n iach a dysgu a ffynnu. Rhaid cael cartrefi newydd o'r radd flaenaf yn y mannau iawn yng Nghymru er mwyn diwallu'r angen am dai.

1.2 Ar hyn o bryd, mae angen i dai sy'n cael eu hadeiladu o dan y Grant Tai Cymdeithasol (y Grant) a mathau eraill o gymhorthdal cyhoeddus fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2005 (Gofynion 2005) Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn bresennol wedi cael ei diweddaru sawl gwaith a lluniwyd cylchlythyrau esboniadol cysylltiedig. Cytunir bod angen i'r safon bresennol gael ei symleiddio a'i hadolygu, a bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i ansawdd y dylunio, cynaliadwyedd, arloesedd, dulliau adeiladu modern a lleihau carbon.

1.3 Cafodd gweithdai eu cynnal â phob rhanddeiliad yn 2015 er mwyn helpu i ddiwygio'r safonau, a chafodd y canlyniadau eu cynnwys mewn fersiwn ddiwygiedig a fu'n destun ymgynghoriad yn 2016. Fodd bynnag, ni chafodd y safon ddiwygiedig ei chyhoeddi a gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ym mis Ebrill 2019 (Adolygiad 2019) ddwyn y blaen.

1.4 Un o argymhellion allweddol Adolygiad 2019 oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safonau syml cyfunol newydd ar gyfer cartrefi newydd a gaiff cymorth grant a chartrefi fforddiadwy a ddarperir drwy gytundebau cynllunio (o dan safon 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ac amodau cynllunio. Dylai'r safonau hyn fod yn haws i'w defnyddio ac ni ddylai unrhyw ofynion wrthdaro. Dylai'r safonau newydd ganolbwyntio ar safonau gofod lleiaf, gan gynnwys mannau storio dan do ac yn yr awyr agored. Hefyd argymhellodd Adolygiad 2019 y dylid ei gwneud yn ofynnol i gartrefi fforddiadwy newydd fod yn rhai di-garbon bron / EPC 'A' gan ddefnyddio dull ffabrig yn gyntaf o 2021, a ategir gan dechnoleg (ynni adnewyddadwy) os oes angen. Yn ogystal, argymhellodd Adolygiad 2019 y dylai Llywodraeth Cymru bennu nod tymor hwy o 2025 fan bellaf i gyrraedd yr un safonau ym mhob cartref, ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth.

1.5 Gan ddefnyddio canlyniadau ymgynghoriad 2015 a chanfyddiadau gweithgor Adolygiad 2019, cafodd safon newydd ei datblygu yn 2020 yn lle Gofynion 2005, sef "Mannau a Chartrefi Prydferth". Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos llawn a ddechreuodd ar 1 Awst 2020 ar gyfer y safon newydd arfaethedig.

1.6 Nod yr ymgynghoriad oedd clywed ystod eang o safbwyntiau am gynigion 2020 er mwyn llunio fersiwn derfynol o'r safon tai a fyddai'n cyflawni argymhellion Adolygiad 2019.

1.7 Yn y ddogfen hon caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 1 Tachwedd 2020 eu crynhoi, a rhoddir ymateb Llywodraeth Cymru a arweiniodd at gyhoeddi'r safon tai ddiwygiedig yn 2021.

**2. Cyhoeddusrwydd**


2.1 Cafodd manylion yr ymgynghoriad eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod a chafodd rhanddeiliaid allweddol wybod amdano'n uniongyrchol.


**3. Ymatebion**

3.1 Daeth cyfanswm o 77 o ymatebion i law, gan gynnwys 3 ymateb hwyr a gafodd eu trin yn yr un ffordd â'r ymatebion prydlon, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a wnaeth ymateb.

3.2 Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

3.3 Busnesau a ymatebodd fwyaf (cafwyd 19 o ymatebion oddi wrth ddatblygwyr tai, ymgynghorwyr a chyrff yn cynrychioli'r diwydiant adeiladu yn bennaf) gan gyfrif am 25% o'r ymatebion. Ymatebodd 15 o Awdurdodau Lleol gan gyfrif am 19% o'r ymatebwyr ac ymatebodd 14 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan gyfrif am 18%. Hefyd ymatebodd 10 unigolyn preifat, ynghyd â 10 sefydliad o'r trydydd sector (yn cynnwys grwpiau gweithredu), gan gyfrif am 13% o'r ymatebion yr un. Ymatebodd 6 sefydliad llywodraethol, gan gyfrif am 8% o'r ymatebion, ac ymatebodd 3 sefydliad academaidd, gan gyfrif am y 4% sy'n weddill. Roedd yr ymatebion gan sefydliadau academaidd yn cynnwys cyfraniad grymus gan Pupils2Parliament, sef grŵp o blant o Ysgol Gynradd Llanandras.





Roedd 86% o'r ymatebion gan ymatebwyr yng Nghymru ac roedd 14% gan ymatebwyr o'r tu hwnt i Gymru.

Rhestrir pawb a wnaeth ymateb fesul categori yn yr Atodiad. Gofynnodd 16 o'r ymatebwyr am i'w hymatebion gael eu cadw'n ddienw.

## 4. Crynodeb o'r ymatebion fesul cwestiwn

4.1 Yn adran pedwar crynhoir yr ymatebion i'r 17 o gwestiynau.

4.2 Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau eu dadansoddi yn ôl canran eu Heffaith, y lefel o Gefnogaeth a'r ganran o ymatebion a arweiniodd at Ddiwygio'r safon, a gyflwynir ar ffurf siartiau cylch isod.




4.3 Defnyddiwyd categorïau coch, oren a melyn i asesu'r Effaith er mwyn nodi'r ymatebion hynny ag effaith fawr (coch), y byddai angen eu hystyried o ddifrif i ddiwygio'r safon, yr ymatebion hynny ag effaith ganolig (oren), lle y gallai fod angen diwygiadau, a'r ymatebion hynny na fyddent yn cael unrhyw effaith (gwyrdd) lle na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiadau.

4.4 Mae'r lefel o Gefnogaeth i'r safon yn dynodi (coch) yn bennaf y graddau yr heriwyd y cynigion o gymharu â'i chefnogi (glas) neu fod yn niwtral (llwyd).

4.5 Mae'r siart ar gyfer Diwygio'r safon yn nodi canran yr ymatebion a arweiniodd at addasu'r cynigion.


4.6 Mae'r diagramau uchod yn dangos, er bod y mwyafrif yn gefnogol, fod cryn bryder wedi cyfrif am 19% o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael effaith uniongyrchol lle byddai angen diwygio'r safon.


4.7 Dangosir sylwadau Llywodraeth Cymru i'r ymatebion mewn testun italig yn "themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau" ar gyfer pob cwestiwn isod...

**4.8 Cwestiwn 1 (C1):**

**"Beth yw eich safbwyntiau cyffredinol am y polisi newydd arfaethedig mewn perthynas â materion sydd wedi'u nodi yn y Crynodeb uchod?"**


4.9 Cafwyd 75 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 5% effaith fawr, bod gan 32% effaith ganolig, ac nad oedd gan 63% unrhyw effaith o gwbl.




4.10 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 27% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.11 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 27% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 19% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.12 Cwestiwn 1 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

4.13 Cytunwyd bod y cynigion yn amlinellu'n ddigonol newid i gartrefi mwy helaeth, diogel a chynnes, gyda dylunio gwell yn cynnig bywyd o ansawdd gwell. *Nodwyd*

4.14 Credwyd bod angen dylunio yn ôl y cyd-destun yn fwy, gan roi pwyslais ar greu lle yn hytrach na chanolbwyntio ar gyrraedd y safonau lleiaf. *Mae hyn wedi arwain at wneud mân newidiadau i eiriad Rhagair.*

*4.15* Codwyd pryderon am fannau gwyrdd, "Teithio Llesol" a phwysigrwydd bod yn hygyrch i'r gymuned. *Mae hyn wedi arwain at wneud mân newidiadau i'r geiriad, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddarparu cyfleusterau storio beiciau ac ystyried ffyrdd cynaliadwy o deithio, cynaliadwyedd ecolegol a gwerthoedd cymunedol.*

4.16 Cefnogwyd Dulliau Adeiladu Modern, y pwyslais ar yr economi gylchol ac atebion ynni cynaliadwy, yn arbennig defnyddio dull "ffabrig yn gyntaf" i sicrhau bod atebion ynni yn addas at y dyfodol. *Nodwyd*

*4.17* Cydnabyddir y dylai Dulliau Adeiladu Modern fod yn hyblyg ac yn benodol i safle fel bod modd cyflawni buddiannau gwirioneddol o ran ansawdd. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn gyson â pholisi Dulliau Adeiladu Modern Cymru ac yn fodd i achub ar amrywiaeth o gyfleoedd cynaliadwy.*

*4.18* Roedd pryder nad oedd y safon yn rhoi digon o bwyslais ar ddylunio carbon isel i gyflawni ymrwymiadau cenedlaethol o ran y newid yn yr hinsawdd. *Mae hyn wedi arwain at newid y geiriad er mwyn bod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

*4.19* Roedd disgwyl y gallai'r ddogfen fod wedi anelu'n uwch wrth ragnodi safonau'n fanylach yn hytrach na dibynnu ar arferion gorau. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy (2019) ar gyfer safonau syml cyfunol ac mae'n gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

*4.20* Gofynnwyd am hyblygrwydd wrth ddehongli'r safon. *Mae hyn wedi arwain at ddiwygio'r safon o ran gofod.*

*4.21* Pryderon ynghylch yr angen am eglurder o ran a106. *Nodwyd a gwnaed diwygiadau addas i'r polisi cynllunio.*

*4.22* Dylai tai fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion newidiol pobl wrth iddynt fynd yn hŷn a dylid dylunio cartrefi mewn ffordd sy'n eu gwneud yn addas i gadeiriau olwyn. *Cydnabyddir y pryder ond ystyrir bod mabwysiadu'r Safon Cartrefi Gydol Oes yn ddigonol o ran cyflawni'r rhwymedigaeth ar gyfer tai anghenion cyffredinol, gan asesu anghenion eraill yn unigol.*

*4.23* Pryderon ynghylch costau cyrraedd y safonau, yn arbennig gofod ac ynni. *Nodwyd ac eir i'r afael â hyn drwy ddiweddaru cyllid grant.*


*4.24* Pryder bod tai mwy o faint yn golygu nad oes digon o dai cyntaf addas ar gael ac y gall datblygiadau llai o faint arwain at lai o gartrefi. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r cynigion ynghylch y safonau o ran gofod yn dilyn trywydd ansawdd tai, fel y'i nodwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019.*


*4.25* Gofynnwyd am groesgyfeirio â pholisïau eraill y llywodraeth. *Nodwyd ond nid ystyriwyd bod angen gwneud hyn ar gyfer y safon.*


*4.26* Credwyd bod angen ymgynghori â thenantiaid ymhellach. *Nodwyd; fodd bynnag bu sawl math o ymgynghoriad ynghlwm wrth y safon hon, gan gynnwys dau adolygiad o dai fforddiadwy ac ymgyngoriadau anffurfiol â'r sector, yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn a oedd yn agored i'r cyhoedd.*

**4.27 Cwestiwn 2 (C2):**
**"Beth yw eich safbwyntiau cyffredinol am y polisi newydd arfaethedig mewn perthynas â'r "dystiolaeth ar gyfer newid" sydd wedi'i nodi yn y Crynodeb uchod?"**

4.28 Cafwyd 60 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 4% effaith fawr, bod gan 28% effaith ganolig, ac nad oedd gan 68% unrhyw effaith o gwbl.




4.29 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 8% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.30 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 8% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 10% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.

**4.31 Cwestiwn 2** – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau

4.32 Cefnogwyd gweld y safon newydd yn cymryd lle Gofynion 2005 a bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad llawn o'r safon newydd yn dilyn yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy. *Nodwyd*

4.33 Cytunwyd y dylid rhoi pwyslais ar ansawdd, arloesedd a chynaliadwyedd tai, hyblygrwydd, diogelwch eiddo a diogelwch personol a'r safon ar gyfer y gofod lleiaf er mwyn gwella safonau tai a sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflawni ansawdd. *Nodwyd.*

4.34 Cydnabuwyd pwysigrwydd dylunio hyblyg a'r angen i ddiwallu anghenion yn y dyfodol drwy safonau a all ymateb i newid heb fynd i gostau ôl-osod diangen. *Nodwyd.*

*4.35* Ystyriwyd bod y pryder ynghylch gweithio gartref hyd yn oed yn bwysicach yn ystod pandemig COVID-19, am fod angen i fwy o bobl weithio gartref. *Arweiniodd hyn at newidiadau o ran hyblygrwydd gofod a chysylltedd â'r we.*

*4.36* Gwnaed camgymeriad yn y safon ddrafft oherwydd nodwyd bod 'tai fforddiadwy' wedi'i ddiffinio yn TAN 12. *Mae'r safon wedi cael ei ddiwygio er mwyn nodi TAN 2 sy'n gywir.*

4.37 Awgrymwyd y dylai'r gofynion o ran gofod fod yn fwy cyson â'r Safon o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr, a chodwyd peth pryder am y rhesymau dros y safonau a nodwyd o ran gofod. *Nodir y gall cartrefi sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n gwneud defnydd effeithlon o le gael eu hadeiladu mewn ffyrdd sy'n gadael ôl gwahanol na'r hyn a gynigir yn y safonau ar gyfer y gofod lleiaf, felly cyflwynwyd hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r pryder a bod yn fwy cyson â'r Safon yn Lloegr.*

*4.38* Er bod yr ymatebion yn cydnabod bod yr hyn a gynigir yn y safon newydd yn cynnig trywydd mwy aeddfed a hyblyg fel bod y sector yn ymateb i ddarparu tai da, roedd peth anghytuno ynghylch a fyddai'r polisi fel y mae yn cyflawni ei nodau. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau) yn hytrach na dibynnu ar ofynion sy'n rhy ragnodol sy'n debygol o ddyddio'n gyflym, a ddigwyddodd yn achos Gofynion 2005.*

*4.39* Pryder bod cartrefi a106 datblygwyr yn llai o ran arwynebedd llawr na thai fforddiadwy a gaiff arian grant. *Gwnaed diwygiadau i bolisïau cynllunio sy'n cefnogi cydymffurfiaeth a106 â safonau ansawdd tai.*

*4.40* Nodwyd pryderon ym maes cyflenwi yn ymwneud â'r angen i dai fforddiadwy, fel Perchentyaeth Cost Isel a chartrefi a106, gyrraedd y safonau arfaethedig o ran y gofod lleiaf pan allai hynny gael effaith niweidiol ar niferoedd a lleihau fforddiadwyedd. *Nodwyd y pryderon am gostau a chyflenwi cartrefi; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel o bob math.*

*4.41* Holwyd am ymgynghori â thenantiaid. *Nodwyd y bu sawl math o ymgynghoriad ynghlwm wrth y safon hon, gan gynnwys dau adolygiad o dai fforddiadwy ac ymgyngoriadau anffurfiol â'r sector, yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn a oedd yn agored i'r cyhoedd.*

*4.42* Croesewir addasu cartrefi fel eu bod yn fwy cynhwysol a hygyrch ac mae cefnogaeth gyffredinol i weithredu'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes; roedd peth pryder bod angen adolygu'r safon hon a'i newid er mwyn cefnogi'r polisi newydd. *Ystyrir bod mabwysiadu'r safon bresennol o ran Cartrefi Gydol Oes yn bodloni'r gofynion.*

*4.43* Pryder nad yw'r dystiolaeth ar gyfer newid sydd wedi'i nodi yn y crynodeb yn gysylltiedig â'r darlun ehangach o ran cynllunio. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n*

*cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi.*


4.44 Cefnogaeth i nodi safon aur Secured by Design nad oedd yn glir yng Ngofynion 2005. *Nodwyd.*


*4.45* Cafwyd awgrym y gallai'r rheoliadau adeiladu fod yn ffordd well o fynd i'r afael â safonau tai a'u deddfu. *Nodwyd ond nid yw'n dilyn trywydd ansawdd tai, fel y'i nodwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019. Fodd bynnag derbynnir y gall fod angen newid polisïau cynllunio presennol a/neu reoliadau adeiladu er mwyn i'r safon fod yn gymwys i dai o bob math yn y dyfodol.*

4.46 Er bod peth cytundeb â'r datganiad 'Mae maint tai yn mynd yn rhy fach' a bod rhai o'r farn y gallai'r safon newydd sbarduno newid o ran ansawdd dylunio, roedd rhai yn anghytuno â'r datganiad hwn hefyd, gan ystyried ei fod yn rhy fras i fod yn berthnasol i bob cartref efallai. *Nodwyd.*

**4.47 Cwestiwn 3 (C3)**
**"A ydych chi o'r farn bod manteision mewn perthynas â'r polisi newydd arfaethedig?"**


4.48 Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 3% effaith fawr, bod gan 23% effaith ganolig, ac nad oedd gan 74% unrhyw effaith o gwbl.




4.49 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 3% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.50 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 3% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 10% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.51 Cwestiwn 3 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

4.52 Cefnogwyd y safonau clir, cryno a chyson arfaethedig, a fyddai'n hawdd eu dilyn, ledled Cymru a wnaiff annog dylunio o'r radd flaenaf ac a fydd o fudd i breswylwyr. *Nodwyd.*

4.53 Cefnogwyd sicrhau bod gan denantiaid fwy o le a allai gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ac roedd yn galonogol gweld bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ddarparu mwy o le ar gyfer technolegau arloesol. *Nodwyd.*

4.54 Ystyrir bod y gofynion o ran y defnydd o le i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon o ran Cartrefi Gydol Oes yn gynnig cadarnhaol a allai gael buddiannau pellgyrhaeddol lle bydd modd i breswylwyr aros yn eu cartrefi wrth iddynt fynd yn hŷn. *Nodwyd*

4.55 Ystyrir bod y safon yn flaengar o ran creu Cartrefi Prydferth a symud tuag at adeiladu di-garbon ac mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y sector effeithlonrwydd ynni, wrth i'r broses o roi'r safonau ar waith ennyn hyder y diwydiant. *Nodwyd.*

*4.56* Credwyd bod y ddogfen yn helpu i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a oedd i'w groesawu, ond y gellid gwella hyn ymhellach. *Mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol yn dilyn sylwadau o'r fath a chyngor i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

4.57 Ystyrir bod hyrwyddo Dulliau Adeiladu Modern yn dda. Mae'r polisi yn cynnig mwy o gyfle i ddefnyddio dulliau adeiladu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â defnyddio

systemau a deunyddiau newydd i leihau'r carbon sydd ynghlwm wrth adeiladu a byw. *Nodwyd.*

4.58 Datganiad bod darparwyr tai am greu cymunedau a chartrefi cynaliadwy. Mae'r safon yn cynnig y cyfle i ddatblygu cartrefi modern ac arloesol sy'n hyblyg o ran eu dylunio a'u defnydd, lle defnyddir deunyddiau cynaliadwy. *Nodwyd.*

4.59 Cefnogaeth i safon aur Secured by Design sy'n helpu i ostwng lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. *Nodwyd.*

*4.60* Credwyd bod y cynigion "i bobl allu dod draw i aros" yn aneglur. *Arweiniodd hyn at wneud diwygiadau er mwyn gwneud y gofyniad yn glir.*

*4.61* Pryderon ynghylch y defnydd o'r ddogfen i annog dylunio da. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

*4.62* Gwnaed sylw bod gofynion clir a phenodol yn golygu nad oedd unrhyw gyfle i ddadlau bod rhywbeth yn amwys a pheidio â chydymffurfio, felly dylai nodi 'sut' i fodloni gofynion y polisi newydd arfaethedig hwn ddigwydd yn achos yr holl ofynion. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon wedi'i llunio'n benodol i fod yn llai rhagnodol lle y bo modd yn unol â phenderfyniadau polisi symleiddio a sicrhau hyblygrwydd.*


4.63 Cytunwyd bod angen eglurder a chysondeb o ran cartrefi a106. *Nodwyd.*


*4.64* Cafwyd sylw y gallai'r safon chwarae rôl bwysig wrth helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol, ac y dylid gwneud mwy o'r elfen ansawdd a hyrwyddir drwy'r safon gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, gallai gwneud y safon yn berthnasol i bob math o gartrefi helpu i leihau'r gwahaniaethau. *Arweiniodd hyn at newid geiriad y Rhagair.*

*4.65* Nodir y ffaith na chytunir bod y safon o fudd fel y mae oni fydd y safonau yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau sylfaenol sydd ynghlwm wrth ynni, carbon a pherfformiad o ddifrif. *Mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net*

**4.66 Cwestiwn 4 (C4):**
**"A ydych chi o'r farn bod unrhyw anfanteision mewn perthynas â'r polisi newydd arfaethedig?"**


4.67 Cafwyd 59 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 22% effaith fawr, bod gan 46% effaith ganolig, ac nad oedd gan 32% unrhyw effaith o gwbl.




4.68 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 46% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.69 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 46% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 14% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




4.70 **Cwestiwn 4 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.71* Roedd pryder mai prin oedd yr wybodaeth am fannau yn yr awyr agored sy'n cael effaith fawr ar lesiant. *Arweiniodd hyn at ddiwygiad er mwyn ei gwneud hi'n glir bod angen i erddi fod yn ddigon o faint ac y dylid hefyd ystyried creu ardal breifat neu gymunedol ar gyfer fflatiau.*

*4.72* Roedd pryder y gallai'r safon gael ei hystyried yn rhywbeth sy'n gwanhau gofynion o ran ansawdd a allai ostwng lefel ansawdd tai. *Arweiniodd hyn at newid geiriad y Rhagair er mwyn tanlinellu'r bwriadau.*

*4.73* Roedd pryder bod Gofyniad 1 yn rhy amwys ac y gallai fod ychydig yn fwy rhagnodol, a bod y defnydd o'r geiriau 'cyfleoedd' ac 'ystyried' yn rhoi rhwydd hynt i anwybyddu'r buddiannau. *Arweiniodd hyn at newid geiriad yr adran.*

*4.74* Roedd pryder nad oedd y polisi arfaethedig presennol yn pwysleisio polisïau cenedlaethol a sefydlwyd eisoes ym meysydd ansawdd dylunio, arloesedd, cynaliadwyedd, ac egwyddorion creu lle da ac y byddai'n werth i'r polisi gynnwys adran glir ar y dechrau yn nodi ei ddiben ac yn egluro ei weledigaeth, gan danlinellu ei nodau a/neu amcanion. *Arweiniodd hyn at newidiadau i'r pwyslais a amlinellir mewn Rhagair newydd.*

*4.75* Roedd pryder y gallai'r safonau o ran gofod a gynigiwyd fod yn rheswm i adeiladwyr tai beidio ag adeiladu mathau penodol o gartrefi. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon ar*

*gyfer gofod yn anelu at sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol. Dylid hefyd nodi bod y safon yn debyg iawn i'r Safon o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr, ond gan adlewyrchu cyd-destun Cymru, yn nodedig sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol. Cyflwynwyd hyblygrwydd er mwyn annog atebion arloesol a bod yn llai rhagnodol.*

*4.76* Pryderon am gostau ychwanegol. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

*4.77* Nodwyd bod yn rhaid bod yn ofalus wrth fynd ati i adeiladu tai o bren ar raddfa fawr yng Nghymru. *Arweiniodd hyn at newid geiriad rhan o'r safon i bwysleisio'r defnydd "effeithlon" o bren.*

*4.78* Roedd pryder y gallai'r defnydd o EPC A greu mwy o bwyslais ar drydaneiddio gwres ar draul gwelliannau ynni effeithlon. *Nodwyd, ac mae'r safon wedi'i diwygio i gynnwys adran ar ynni sydd wedi'i haddasu drwy ei gwneud yn ofynnol i gyflawni sgôr ynni EPC A (SAP92 neu'n uwch) drwy safon ffabrig leiaf a heb ddefnyddio boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na roddir y gorau i atebion dylunio carbon isel o ansawdd uchel fel safon Passivhaus, bydd cynigion amgen i EPC A a boeleri nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil yn dderbyniol lle gellir dangos, drwy ardystiad annibynnol, fod galw am ynni'r adeilad yn llai yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Polisi Cynllunio Cymru.*

*4.79* Mae sawl amwysedd posibl yn y ddogfen bolisi arfaethedig, a allai effeithio ar negodiadau ac arwain at anghysondeb wrth roi'r safonau ar waith. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag nodwn safonau lleiaf ac anogir y defnydd o arferion gorau. Anogir darparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol i ddatblygu atebion dylunio da i fodloni eu gofynion eu hunain o ran ansawdd.*

*4.80* Fel y maent, nid yw'r safonau hyn yn gosod targedau digon uchelgeisiol o ran cynaliadwyedd. *Arweiniodd hyn at newid geiriad yr adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

*4.81* Roedd pryderon am reoli disgwyliadau; cyflawni'r gost isaf yn hytrach na'r gost 'oes gyfan'. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn hyrwyddo dadansoddi ac ansawdd ar sail "Cost Oes Gyfan".*

4.82 Pryder mai dim ond tai fforddiadwy sydd dan sylw ac y dylai fod yn safon leiaf ar gyfer pob cartref yng Nghymru. *Nodwyd y pryder a chaiff ei ystyried wrth i bolisïau ddatblygu yn y dyfodol.*

*4.83* Pryder na ddylai Dulliau Adeiladu Modern gael eu hystyried yn ateb i bopeth yn sgil y gadwyn gyflenwi a diffyg hyder benthycwyr. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel a sbarduno arloesedd drwy ffrydiau ariannu fel y grant tai cymdeithasol.*

*4.84* Pryder nad oes unrhyw sôn am gosbi rhywun am fethu â chyrraedd y safonau hyn. *Nodwyd y pryder; fodd bynnag dim ond arweiniad o ran ansawdd a rydd y safon a'i nod yw annog arferion gorau. Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau craffu technegol a fydd yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer tai a gaiff arian grant.*

*4.85* Pryder y dylai'r safonau arfaethedig fod yn gyson â pholisïau cynllunio eraill. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac ystyrir ei bod yn gyson. Fodd bynnag derbynnir y gall fod angen newid*

*polisïau cynllunio presennol a/neu reoliadau adeiladu er mwyn i'r safon fod yn gymwys i dai o bob math yn y dyfodol.*

*4.86* Pryder bod modd dehongli'r safon yn ormodol. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn fwriadol yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

*4.87* Argymhelliad i ddiwygio'r gofynion o ran cynaliadwyedd gan ddefnyddio safonau ar gyfer carbon ymgorfforedig (kg/m2/bl) ac ynni gweithredol (dwysedd defnydd ynni – kWh/m2/bl). *Nodwyd; fodd bynnag mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net. Ni osodwyd targedau carbon fel carbon ymlaen llaw, carbon ymgorfforedig, y galw i gynhesu lle na metrigau dwysedd cyfanswm defnydd ynni am y tro, gan adael y sector i osod targedau yn unol ag ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.*


*4.88* Gall cefnogaeth ddiamod i Ddulliau Adeiladu Modern o bob math, sy'n cynnwys llawer o gynigion ysgafn, arwain at danseilio rhai amcanion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag nid ystyrir bod y safon wedi'i geirio mewn ffordd sy'n rhoi cefnogaeth ddiamod i brosesau na chynhyrchion nad ydynt yn gynaliadwy. Rhaid i'r defnydd o Ddulliau Adeiladu Modern fod yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*


*4.89* Pryder y gallai dileu rhai o ofynion rhagnodol presennol Gofynion 2005 leihau amwynder a rhoi gormod o le i ddarpariaeth o safon is, yn enwedig darpariaeth o dan gytundebau A106. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau). Ystyrir bod digon o elfennau rhagnodol yn y safon newydd i sicrhau y darperir cartrefi o'r radd flaenaf.*


*4.90* Credwyd bod cadw Cartrefi Gydol Oes yn creu gwrthdaro mewn rhai ardaloedd. *Nodwyd; fodd bynnag ystyrir bod mabwysiadu'r safon bresennol o ran Cartrefi Gydol Oes yn bodloni'r gofynion heb fod gwrthdaro.*

**4.91 Cwestiwn 5 (C5):**
**"Pa newidiadau (os bydd rhai) yn eich barn chi sydd angen eu gwneud i'r polisi newydd arfaethedig? Eglurwch y rhain, gan gynnig tystiolaeth ar gyfer eich barn."**

4.92 Cafwyd 61 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 15% effaith fawr, bod gan 70% effaith ganolig, ac nad oedd gan 15% unrhyw effaith o gwbl.




4.93 Er bod cefnogaeth i'r polisi, mynegodd 54% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.94 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 54% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 36% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.

**4.95 Cwestiwn 5 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.96* Mandadu ac annog paneli solar ffotofoltaig a chasglu dŵr llwyd. *Nodwyd yr argymhelliad; fodd bynnag nid yw'r safon wedi'i dylunio i fandadu unrhyw fath penodol o dechnolegau Carbon Isel/Di-garbon ond mae'n pennu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb yn nwylo darparwyr tai.*

*4.97* Angen safonau gofodol clir dan do ac yn yr awyr agored, ac integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus, Teithio Llesol a seiclo. *Nodwyd y pryder ac mae'r safon wedi'i diwygio i gynnwys y gofyniad am gyfleusterau storio beiciau ac ystyried ffyrdd cynaliadwy o deithio.*

4.98 Angen egluro bod y safonau yn orfodadwy yn ôl y gyfraith fel rhan o gytundeb cyfreithiol A106. *Mae polisïau cynllunio wedi'u diweddaru i gefnogi'r gofyniad.*

*4.99* Dylai dadansoddiad o gostau oes gyfan fod yn rhan safonol o bob cynllun. *Nodwyd y pwynt am gostau oes gyfan a drafodir yn adran 1 o'r safon.*

*4.100* Egluro bod dyluniad ardaloedd awyr agored mor bwysig â dyluniad tai. *Arweiniodd hyn at newidiadau i'r pwyslais a amlinellir mewn rhagair newydd.*

*4.101* Pryder bod rhywfaint o wrthdaro o hyd rhwng argymhellion Cartrefi Gydol Oes a Gofynion 2005. *Nid oes unrhyw wrthdaro hysbys â Cartrefi Gydol Oes ac nid yw'r safon yn drech na gofynion lleiaf deddfwriaeth arall.*

*4.102* Dylid ystyried creu ystafelloedd astudio yn lle swyddfeydd. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safonau arfaethedig o ran gofod yn rhoi sylw priodol i'r cyfle i ddarparu ar gyfer gweithio gartref mewn "ystafell addas".*

*4.103* Nodwyd y pryderon am y ffaith na chyfeirir at yr amgylchedd naturiol. *Arweiniodd hyn at ddiwygiadau a Rhagair newydd i gyfeirio at gynaliadwyedd ecolegol a gwerthoedd cymunedol.*

*4.104* Gellid ystyried ymgorffori ynni adnewyddadwy, teithio llesol, mannau gwefru ceir/beiciau a seilwaith digidol er mwyn helpu pobl i weithio gartref a sicrhau cynhwysiant. *Arweiniodd hyn at newid geiriad yr adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net, ynghyd â diwygiadau i gynnwys cyfleusterau storio beiciau ac ystyried ffyrdd cynaliadwy o deithio.*

*4.105* Dylai'r polisi newydd arfaethedig gynnwys gofynion o ran effeithlonrwydd ynni lleiaf gan ganolbwyntio ar wella safonau ynni a charbon yn unol â'r hyn y mae'n rhaid ei wneud er mwyn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn ehangach. *Nodwyd; fodd bynnag ni osodwyd targedau carbon fel carbon ymlaen llaw, carbon ymgorfforedig, y galw i gynhesu lle na metrigau dwysedd cyfanswm defnydd ynni am y tro, gan adael y sector i osod targedau yn unol ag ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Mae'r safon wedi'i diwygio i gynnwys adran sydd wedi'i haddasu ar ynni, gan gynnwys gofynion i gyflawni EPC A (SAP92 neu'n fwy) drwy safon ffabrig leiaf a heb ddefnyddio boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil er mwyn sicrhau na roddir y gorau i atebion dylunio carbon isel o ansawdd uchel fel safon Passivhaus, bydd cynigion amgen i EPC A a boeleri nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil yn dderbyniol lle gellir dangos, drwy ardystiad annibynnol, fod galw am ynni'r adeilad yn llai yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Polisi Cynllunio Cymru.*

*4.106* Gwella ffactorau amgylcheddol. *Nodwyd, sydd wedi arwain at ddiwygiadau i'r Rhagair i gyfeirio at gynaliadwyedd ecolegol a gwerthoedd cymunedol.*

4.107 Dylai canran benodol o'r cartrefi yn y polisi newydd arfaethedig gynnwys cynhyrchion dŵr poeth a gwresogi arloesol a chynaliadwy. *Nodwyd; fodd bynnag nod y safon yw annog atebion arloesol a chynaliadwy i bob cartref newydd, a fydd yn angenrheidiol er mwyn bodloni'r gofynion.*

*4.108* Adolygu'r safonau gofod lleiaf ar gyfer cartrefi 2 a 3 ystafell wely. *Nodwyd a phenderfynwyd cyflwyno elfen o hyblygrwydd i'r safon.*

*4.109* Mae angen i'r polisi gynnwys gofyniad i ddarparu lle penodol yn y cartref i weithio, gardd breifat neu ardal y gellir ei defnyddio yn yr awyr agored, yn ogystal â chyfleusterau storio beiciau digonol. *Nodwyd ac mae'r safon wedi'i diwygio i gyfrif am yr awgrymiadau hyn.*

*4.110* Rhaid i'r maes tai weithio law yn llaw â meysydd polisi eraill, er enghraifft i gyflawni nodau Cymru Iachach. *Nodwyd y pryderon a arweiniodd at newid y geiriad er mwyn cyfeirio at y gallu i addasu a hyblygrwydd yn ddigonol.*

*4.111* Dylid egluro sut y caiff cydymffurfiaeth â'r safon newydd ei hasesu. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r polisi yn nodi safonau lleiaf ac yn annog y defnydd o arferion gorau lle mae'n rhaid i ddarparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol ddatblygu atebion dylunio da. Mae'r safon yn fwriadol yn annog arferion gorau dros ofynion rhagnodol y byddai angen eu rheoleiddio. Ar gyfer prosiectau a gaiff arian grant, defnyddir gweithdrefnau craffu technegol Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth.*

*4.112* Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn mabwysiadu'r safon. *Nodwyd a gwnaed.*

*4.113* Dylai Atodlen B gynnwys eiddo 2 ystafell wely a fyddai'n fwy o faint na'r arfer er mwyn rhoi mwy o le i bobl â phroblem symudedd. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer llety anghenion cyffredinol ac nid yw'n golygu na ellir dylunio ar gyfer amrywiaeth o lety, gan gynnwys anghenion arbennig. Rhaid derbyn na ellir cyfrif am bob math o gartref.*

*4.114* Dylid gorfod darparu cawodydd ar y llawr daear. *Nodwyd y farn ynghylch cawodydd; fodd bynnag ystyrir bod Cartrefi Gydol Oes yn safon resymol. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod safonau lleiaf ac anogir darparwyr tai i ddatblygu atebion dylunio i ddiwallu anghenion, fel cawodydd ychwanegol.*

*4.115* Egluro a oes angen Cartrefi Gydol Oes ar fflatiau uwchlaw llawr daear sydd heb lifft. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon hon yn gymwys i bob llawr.*

*4.116* Ystyried mandadu bod pob cartref 2 ystafell wely yn addas i 4 person a bod pob cartref 3 ystafell wely yn addas i 5 person o leiaf fel nad oes angen darparu cartrefi bach. *Nodwyd; fodd bynnag mater i ddarparwyr tai yw dewis maint cartrefi a'r math o gartrefi, a bydd y safonau o ran gofod yn golygu na ddarperir tai sy'n rhy fach.*

*4.117* Dylid ei gwneud yn ofynnol i erddi tai fod yn 25m2 o leiaf dyweder. *Nodwyd ac mae Rhan 3 wedi cael ei diwygio er mwyn ei gwneud hi'n glir bod angen i erddi fod yn ddigon o faint a disgwylir i hyn fodloni gofynion y cleient a/neu ofynion cynllunio.*

*4.118* Byddai o fudd parhau â'r gofyniad rhesymol i beiriannau sychu dillad gael eu rhoi mewn man lle gellir rhedeg pibell awyru y tu allan. *Deallwyd; fodd bynnag safonau lleiaf a nodir gennym ac anogir y defnydd o arferion gorau. Anogir darparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol i ddatblygu atebion dylunio da i fodloni gofynion lleol fel gofynion sychu dillad. Nid yw'r safon yn cynnwys y fath lefel o ofyniad rhagnodol er mwyn annog atebion arloesol ac arferion gorau.*

*4.119* Argymhelliad y dylai larymau carbon monocsid gael eu cysylltu â'r prif gyflenwad trydan, a defnyddio batris wrth gefn. *Arweiniodd hyn at ofynion ychwanegol o ran diogelu adeiladau yn rhan 3.*

*4.120* Pryderon bod gormod o anheddau yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd lle defnyddir tanwyddau ffosil. *Nodwyd, ac mae'r safon wedi'i diwygio i gynnwys adran ar ynni sydd wedi'i haddasu drwy ei gwneud yn ofynnol i gyflawni sgôr ynni EPC A (SAP92 neu'n uwch) drwy safon ffabrig leiaf a heb ddefnyddio boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil.*

*Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na roddir y gorau i atebion dylunio carbon isel o ansawdd uchel fel safon Passivhaus, bydd cynigion amgen i EPC A a boeleri nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil yn dderbyniol lle gellir dangos, drwy ardystiad annibynnol, fod galw am ynni'r adeilad yn llai yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Polisi Cynllunio Cymru.*

*4.121* Ystyried newid y geiriad o ofod "lleiaf' i ofod "optimaidd" er mwyn annog dylunwyr i greu gofod â mwy o le. *Arweiniodd hyn at dynnu'r gair "lleiaf" o deitl Atodiad A.*

*4.122* Awgrym y dylai arwynebedd llawr ddilyn Safon Lloegr. *Nodir y gall cartrefi sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n gwneud defnydd effeithlon o le gael eu hadeiladu mewn ffyrdd sy'n gadael ôl gwahanol na'r hyn a gynigir yn y safonau ar gyfer y gofod lleiaf, felly cyflwynwyd hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r pryder a bod yn fwy cyson â'r Safon yn Lloegr.*

*4.123* Awgrym y dylai'r safon gyfeirio at ganllawiau/strategaethau priodol eraill, a chysylltu'n glir â nhw, a bod cyfle i gyfeirio at rôl tenantiaid a'r gymuned ehangach yn ystod y gwaith dylunio. *Mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi. Diwygiwyd y rhagair er mwyn cyfeirio at bolisi ac ymgysylltiad cymunedol.*

4.124 Ystyried cynnwys Adroddiadau Prynwyr Cartrefi a'r Safonau Mesur Eiddo Rhyngwladol yn y polisi. *Nodwyd ond nid ystyriwyd bod angen gwneud hyn i osod safonau ansawdd.*

4.125 Dylai gwella iechyd a llesiant fod yn un o brif ofynion Mannau a Chartrefi Prydferth. *Arweiniodd hyn at ddiwygio'r Rhagair.*

*4.126* Prin y sonnir am fannau yn yr awyr agored a dylai'r cyflwyniad gyfeirio'n benodol at yr agenda creu lleoedd. Mae gardd breifat yn allweddol i nodau creu lleoedd a llesiant Llywodraeth Cymru ac mae pandemig COVID-19 wedi gwneud hyn hyd yn oed yn bwysicach. *Arweiniodd hyn at newid geiriad y rhagair a Rhan 3 o'r safon.*

*4.127* Mae'r safon yn rhy oddrychol, ac yn rhy agored i gael ei ddehongli. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau) ac mae wedi'i symleiddio fel y'i cefnogwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019.*

*4.128* Awgrym y dylai'r polisi nodi safonau hygyrchedd ar gyfer cadeiriau olwyn, gan gynnwys anghenion arbennig, fel maint a manyleb eiddo bariatrig/wedi'i addasu. *Cydnabyddwn y pryderon hyn ond mae'r safon wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer anghenion cyffredinol ac ystyrir bod mabwysiadu'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes yn cyflawni'r rhwymedigaeth i ddarparu cartrefi hygyrch sy'n diwallu anghenion yn y dyfodol. Mae darpariaeth sy'n ystyried cadeiriau olwyn ac anghenion arbennig eraill y tu hwnt i gwmpas y safon hon.*

*4.129* Byddai'n fuddiol cyfeirio'n benodol at gefnogi'r Economi Sylfaenol. *Nodwyd; fodd bynnag mae tai yn elfen allweddol o'r Economi Sylfaenol ac felly nid oes angen i'r safon gyfeirio at hynny.*

*4.130* Hyrwyddo'r gwaith o gynnwys eiddo A106 mewn ystadau. *Nodwyd y pryderon ynghylch deiliadaeth gymysg ond mater i'r Awdurdod Lleol a darparwyr tai yw hyn.*

*4.131* Byddai diagramau yn ddefnyddiol i ddangos amgylchiadau gwahanol a safonau "rhesymol". *Nodwyd; fodd bynnag mae canllawiau o'r fath ar gael eisoes mewn canllawiau a pholisïau dylunio arferion gorau eraill ac nid ystyrir bod angen eu cynnwys*

*yn y safon sy'n nodi'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am ddarparu tai o'r radd flaenaf yn nwylo darparwyr tai.*


*4.132* Nid yw'r safon Secured by Design o fudd, yn enwedig gan fod diogelwch wedi'i gynnwys bellach yn Rhan Q o'r Rheoliadau Adeiladu. *Nodwyd ond mae'r lefel o gydymffurfiaeth a nodir uwchlaw rhan Q, yn benodol yr elfennau ystad gyfan.*


*4.133* Nid yw'r cynigion yn cyfeirio at Safon Ansawdd Tai Cymru. *Nodwyd; fodd bynnag nid yw'r Safon hon yn berthnasol i dai newydd sbon ac felly nid yw'n briodol cyfeirio ati yn y safon ar eu cyfer.*

**4.134 Cwestiwn 6 (C6):**

**"A ydych chi'n cytuno neu yn anghytuno ei bod yn bwysig i'r holl gartrefi fforddiadwy gael eu darparu drwy gytundebau ac amodau cynllunio adran 106 er mwyn bodloni'r safonau ansawdd arfaethedig ar gyfer cartrefi newydd? Os ydych chi'n anghytuno, rhowch wybod inni pam."**


4.135 Cafwyd 63 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 3% effaith fawr, bod gan 29% effaith ganolig, ac nad oedd gan 68% unrhyw effaith o gwbl.




4.136 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 5% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.137 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 5% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 3% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




4.138 **Cwestiwn 6 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.139* Mae angen newid y gair 'fforddiadwy' er mwyn cyfrif am ddatblygiadau drud lle caiff tai fforddiadwy â'r un dimensiynau a rhinweddau eu darparu lle gall pris yr elfen fforddiadwy fod yn llai ond nid yn fforddiadwy mewn gwirionedd. *Nodwyd; fodd bynnag mae diffiniad presennol Llywodraeth Cymru o dai fforddiadwy a geir yn TAN 2 wedi'i dderbyn yn eang ac, yn y senario dan sylw, gellid darparu cyfraniad tai fforddiadwy ar safle amgen neu fel swm wedi'i gyfnewid.*

4.140 Cytundeb bod cryn alw am dai fforddiadwy na ddylent fod o safon is pan gânt eu cyflenwi o dan gytundebau a106. *Nodwyd.*

*4.141* Cytundeb bod buddiannau clir i wneud y polisi newydd yn berthnasol i eiddo Adran 106. Fodd bynnag, gall fod yn her i rai datblygwyr gyrraedd y safonau hyn a all olygu nad ydynt yn dymuno codi tai yng Nghymru, neu arwain at godi llai o dai fforddiadwy yn y ffordd hon. *Nodwyd y pryderon am y cyflenwad; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

*4.142* Cydnabyddir bod cyfran fawr o'r tai fforddiadwy a geir yng Nghymru yn cael ei darparu drwy rwymedigaethau cynllunio A106 ac mae'n bwysig bod y cartrefi newydd hyn yn cyrraedd y safon hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig ei gwneud hi'n haws i


adeiladwyr tai mawr gyrraedd y safon hon ac awgrymir y dylai'r safon gynnwys arwynebedd llawr gofynnol Safon Lloegr, yn hytrach na gosod safon newydd, ychydig yn wahanol. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn debyg iawn i'r Safon o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr, gan adlewyrchu cyd-destun Cymru, yn nodedig sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol. Mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn sicrhau hyblygrwydd i fod yn fwy cyson â Safon Lloegr.*


*4.143* Pryder ynghylch effeithiau andwyol cynyddu safonau gofod, dichonoldeb, cynhyrchion tai sy'n cefnogi perchentyaeth llai fforddiadwy, cyflenwi llai o gartrefi (preifat a fforddiadwy) am fod llai o ddwysedd, methu â chyflawni nodau'r agenda creu lleoedd, a galw am gyflenwi tai fforddiadwy mewn ffordd fwy hyblyg. *Cydnabyddir y pryderon ynghylch dichonoldeb, ond er ei bod hi'n bwysig cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael, mae'r un mor bwysig sicrhau bod tai fforddiadwy yn cyrraedd yr un safonau o ran ansawdd hefyd. Nid ystyrir ei bod hi'n briodol cyflwyno hyblygrwydd ar gyfer gwahanol fathau o dai fforddiadwy oherwydd byddai'n tanseilio'r nod o sicrhau safonau cyson, a gallai arwain at ffafrio rhai mathau o dai ar sail costau yn hytrach na'r dystiolaeth o angen. Dim ond un elfen o'r agenda 'creu lleoedd' yw dwysedd tai uwch lle y bo'n briodol; mae hefyd yn bwysig gwella ansawdd y cartrefi a ddarperir.*

**4.144 Cwestiwn 7 (C7):**

**"Beth yw eich barn am y bwriad i fabwysiadu'r polisi newydd arfaethedig ar gyfer pob cartref ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth. Eglurwch eich barn gan gynnig tystiolaeth."**


4.145 Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 8% effaith fawr, bod gan 23% effaith ganolig, ac nad oedd gan 69% unrhyw effaith o gwbl.




4.146 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 10% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.147 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 10% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 3% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.148 Cwestiwn 7 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

4.149 Cytundeb y byddai pwysau masnachol i leihau safonau o ran gofod heb y fath safoni. *Nodwyd.*

*4.150* Gall fod lle yn y farchnad i adeiladu tai sy'n llai o faint na'r safonau arfaethedig i brynwyr tro cyntaf. *Nodwyd; fodd bynnag nid yw'n dilyn trywydd ansawdd tai, fel y'i nodwyd gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019*

*4.151* Nodwyd bod angen dull digon cadarn o sicrhau cydymffurfiaeth. *Nodwyd ac fe'i hystyrir wrth i bolisïau ddatblygu yn y dyfodol.*

4.152 Fe'i cefnogir oherwydd mae angen tai cynaliadwy sy'n ystyried yr amgylchedd arnom, ac sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. *Nodwyd.*

*4.153* Anawsterau ochr yn ochr â'r gystadleuaeth am dir, costau ychwanegol posibl sy'n effeithio ar berchenogion tai, ac y gallai cyflenwyr marchnad dorfol adael Cymru. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

4.154 Cefnogir safoni'r gofynion ar gyfer pob deiliadaeth ond Rheoliadau Adeiladu fyddai'r ffordd orau o gyflawni hyn. *Nodwyd ac fe'i hystyrir wrth i bolisïau ddatblygu yn y dyfodol.*

*4.155* Dylai datblygwyr gael eu hannog i anelu'n uwch na'r safonau lleiaf a osodir gan reoliadau adeiladu. *Nodwyd, a dyna pam y gwnaeth y safon a osodwyd gynyddu'r gofynion ar gyfer cynaliadwyedd a pherfformiad ynni.*

4.156 Cefnogir y cynnig i fabwysiadu'r polisi newydd arfaethedig ar gyfer tai ni waeth beth fo'u deiliadaeth oherwydd mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi nodi bod "tangyflenwad o dai hygyrch" yng Nghymru, ac yn 2018 argymhellodd "pe byddai pob cartref newydd yng Nghymru yn cael ei adeiladu yn unol â’r Gofynion Ansawdd Datblygu, a'r Safon Cartrefi am Oes, byddai hyn yn golygu y byddai’r stoc dai newydd yng Nghymru yn gallu ymgodymu â’r dyfodol ac yn addas i ddiwallu anghenion newidiol pobl anabl." *Nodwyd.*

*4.157* Pryder y bydd ond gwneud y safon newydd hon yn berthnasol i dai fforddiadwy yn effeithio ar y gallu i gyflenwyr tai fforddiadwy fod yn gystadleuol. Cefnogir 'un safon' ar gyfer pob cartref newydd, gan roi mwy o ystyriaeth i wella creu lleoedd, ansawdd dylunio, cynaliadwyedd/arloesedd, a lleihau carbon ond mae'n bwysig cydnabod na ddylai un safon fod yn rhy llafurus, oherwydd gallai olygu nad yw adeiladwyr tai mawr am godi tai yng Nghymru, a allai gael effaith fawr ar y cyflenwad o dai. Awgrymir, os cyflwynir un safon newydd ar gyfer pob cartref, ni waeth beth fo'i ddeiliadaeth, y dylai fod yn debyg i Safon Lloegr. *Nodwyd y pryderon ac mae'r safon wedi'i diwygio er mwyn cyflwyno hyblygrwydd i fod yn debycach i'r Safon o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr, gan adlewyrchu cyd-destun Cymru, yn nodedig sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol.*


4.158 Mae cartrefi sydd wedi'u hadeiladu i safonau gwahanol yn creu eu hanghydraddoldebau eu hunain rhwng pobl mewn cymunedau; dylai safonau fodoli er mwyn sicrhau bod pawb yn cael profiad o safon, ni waeth a yw cartrefi ar werth neu i'w rhentu. *Nodwyd*


*4.159* Cytunwyd y byddai mabwysiadu'r safon ar gyfer pob deiliadaeth yn llawer mwy buddiol o ran dulliau adeiladu arloesol fel Dulliau Adeiladu Modern. Drwy grynhoi'r galw, a safoni, lleiheir costau gweithgynhyrchu deunyddiau crai a symleiddir y broses weinyddol ar gyfer y diwydiant. Mae cyfyngu'r safon i fathau penodol o ddeiliadaeth yn arwain at gynyddu'r bwlch o ran amodau byw rhwng tai cymdeithasol, y sector rhentu preifat a pherchen-feddianwyr, felly dylai cymhwyso tai yn ehangach liniaru hyn. *Nodwyd*

**4.160 Cwestiwn 8 (C8):**

**"Beth yw eich barn am y safon arfaethedig ar gyfer y gofod lleiaf? Eglurwch eich barn gan gynnig tystiolaeth."**


4.161 Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 9% effaith fawr, bod gan 36% effaith ganolig, ac nad oedd gan 55% unrhyw effaith o gwbl.




4.162 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 12% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.163 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 12% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 15% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.164 Cwestiwn 8 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.165* Syniad gwych ond mae angen bod yn ofalus o ran yr effaith ar yr amgylchedd neu gallu'r awdurdod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau adeiladu o ran niferoedd pan fo tir yn brin. Hefyd pryder y byddai cyflwyno'r gofynion hyn yn arwain at newid y cymysgedd o dai ar safleoedd lle ceir cartrefi â 4+ ystafell wely yn bennaf. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

*4.166* Dylid darparu ardal fyw ychwanegol fel bod modd cael ystafell swyddfa yn hytrach na lle ar gyfer swyddfa, fel y gellir gweithio gartref. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu digon o le i feddianwyr "sefydlu swyddfa yn y cartref mewn ystafell briodol sy'n caniatáu gallu gweithio gartref". Rhaid i'r penderfyniad am le addas gael ei wneud gan y darparwr tai.*

*4.167* Pryderon am y lle sydd mewn Byngalos. *Nodwyd; fodd bynnag nodwn safonau lleiaf ac anogir y defnydd o arferion gorau. Anogir darparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol i ddatblygu atebion dylunio da i fodloni gofynion lleol.*

*4.168* Mae'n ofyniad cadarnhaol ac mae cynnwys cyfleusterau storio penodol hefyd yn ddefnyddiol. Mae Atodiad A yn nodi'n glir yr hyn sydd ei angen i fodloni gofynion o ran lle fel y Safonau Cartrefi Gydol Oes er mwyn bodloni gofynion hygyrchedd nawr ac yn y dyfodol. *Nodwyd*

*4.169* Ymddengys fod tai newydd sbon yn mynd yn llai ac yn llai bob blwyddyn, heb roi unrhyw ystyriaeth i'r angen i storio pethau, sychu dillad nac ailgylchu. *Nodwyd a dyma un o'r rhesymau dros gyflwyno'r safon o ran gofod.*

*4.170* Dylai safonau o ran gofod fod yn seiliedig ar ymchwil sy'n gymesur i'r budd; dylid cyrraedd yr un safonau â rhai gweinyddiaethau eraill y DU lle y bo modd. *Nodwyd a dyma pam mae'r safon wedi cael ei diwygio fel ei bod yn debycach i Safon Lloegr.*

4.171 Croesewir y ffocws ar le yn y safon newydd hon. Ystyriwyd yr hyn a oedd yn bwysig i denantiaid yn ystod yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy ac fe'i hawgrymwyd yn y cynnig hwn at ei gilydd. Wrth ystyried pandemig COVID-19 a phobl yn gweithio gartref, mae'r safonau o ran gofod yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar denantiaid. Nodwyd.

*4.172* Credir bod yn rhaid i gartrefi newydd yng Nghymru gael eu hadeiladu gan ystyried cenedlaethau'r dyfodol yn anad dim, a rhaid i'r gofynion o ran gofod lleiaf ystyried yr angen i allu addasu tai er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol. *Nodwyd, a dyna pam mae'r polisi yn hyrwyddo'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes.*

*4.173* Dylai dimensiynau ystafelloedd hanfodol hefyd ystyried dimensiynau coridorau, grisiau a drysau yn y cartref fel ei bod hi'n haws symud o amgylch y cartref. *Nodwyd; fodd bynnag llywodraethir dimensiynau hanfodol gan reoliadau adeiladu ar y cyd â'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes.*

*4.174* Dylid cyfeirio at ganllawiau arferion gorau yn benodol fel eu bod yn chwarae rhan fwy blaenllaw a chanolog yn y Safonau diwygiedig. *Nodwyd; fodd bynnag cefnogir geiriad symlach y safon gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019.*

*4.175* Awgrym i fod yn hyblyg mewn perthynas â'r safonau o ran gofod er mwyn rhoi mwy o gyfle i landlordiaid cymdeithasol adeiladu cartrefi sy'n gweddu i'w cymunedau. *Nodwyd, a dyna pam mae'r safon wedi'i geirio'n wahanol er mwyn cyflwyno elfen o hyblygrwydd.*

*4.176* Gwrthwynebu am bedwar rheswm; yn gyntaf y cynnig i wneud anheddau newydd yn fwy o faint a'r cynnydd cysylltiedig yng nghostau adeiladu'r eiddo a welir ym mhris yr eiddo gan ei wneud yn llai fforddiadwy i brynwyr tro cyntaf. Yn ail am fod y cynnydd arfaethedig i faint cartrefi yn fwy ar gyfer yr eiddo dwy a thair ystafell wely llai sydd fwyaf poblogaidd ymhlith prynwyr tro cyntaf, a lle mae'r pris prynu yn debygol o fod yn bwysicach. Yn drydydd oherwydd y bydd y cynnydd ym maint tai hefyd yn arwain at lai o dai ar safle, ac yn olaf y bydd y meintiau arfaethedig ychydig yn wahanol i'r rhai a awgrymir yn Lloegr ar hyn o bryd sy'n creu problemau i adeiladwyr tai cenedlaethol a rhai BBaChau mwy o faint sy'n gweithio dros y ffin, gan olygu bod angen iddynt gynnig dwy ystod wahanol o dai. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn bod yn hyblyg a thynnu'r gair lleiaf o deitl yr Atodiad er mwyn bod yn debycach i'r Safon o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr.*

*4.177* Nododd y plant fod angen i'r safonau o ran gofod yn y dyfodol sicrhau bod ystafelloedd gwely plant yn arbennig o faint da, a bod ystafelloedd ymolchi a cheginau o faint rhesymol i'w defnyddio gan deuluoedd. *Nodwyd ac fe'i hadlewyrchwyd yn y safonau.*

4.178 Argymhelliad i ehangu'r canllawiau i ddiffinio'r gofod lleiaf ar gyfer datblygiadau tri llawr. *Nodwyd; fodd bynnag nid yw'r safon yn cyfrif am bob math o gartref lle mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb am ddarparu cartrefi pwrpasol o ansawdd uchel barhau yn nwylo'r darparwr tai.*


4.179 Dylai teitl y 3edd golofn newid i: Arwynebedd (llawr) Mewnol Gros (GIA) m2. *Cytuno ac fe'i newidiwyd.*


*4.180* Dylid cynnal asesiad cynhwysfawr o ddichonoldeb cydymffurfio â'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes yn erbyn y safon arfaethedig ar gyfer y gofod lleiaf mewn ymgynghoriad ag arbenigwr dylunio cynhwysol sydd â gwybodaeth dechnegol fanwl am y safon. *Nodwyd; fodd bynnag mae Cartrefi Gydol Oes wedi cael ei ddatblygu gan Habinteg ac felly nid ystyrir bod angen ymgynghori ymhellach.*

**4.181 Cwestiwn 9 (C9):**

**"Ac eithrio gofynion Cartrefi Gydol Oes, nid yw'r polisi newydd arfaethedig yn un sy'n gosod cyfarwyddyd mewn perthynas â bod yn gynhwysol, ac yn arbennig o ran materion fel anabledd, ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd, hawliau dynol neu hawliau plant. A ydych chi o'r farn bod y polisi newydd arfaethedig yn ddigon cynhwysol neu beidio? Eglurwch eich barn gan gynnig tystiolaeth."**


4.182 Cafwyd 54 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 7% effaith fawr, bod gan 30% effaith ganolig, ac nad oedd gan 63% unrhyw effaith o gwbl.




4.183 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 18% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.184 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 18% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 0% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.185 Cwestiwn 9 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.186* Cytuno am y tro ond er llesiant cenedlaethau'r dyfodol, gallai safonau'r dyfodol ystyried gwneud ardal awyr agored yn ofynnol, hyd yn oed os mai dim ond balconi sydd. Yn yr un modd, roedd gan y plant safbwyntiau clir iawn am y ffordd y gall y polisi a'r safonau gofod newydd fod o fudd iddynt. Maent am i gartrefi newydd fod yn fawr, a chynnwys gardd fawr, sy'n edrych ac yn teimlo'n arbennig, ac sydd ag ystafelloedd gwely mwy o faint. Hefyd hoffai'r plant gael ystafell chwarae (neu "ystafell deganau") er mwyn chwarae dan do – yn ogystal â chael gardd sy'n ddigon mawr i chwarae ynddi. *Mae'r sylw hwn yn cefnogi'r achos dros bennu safonau gofod ac arweiniodd at newid geiriad y safon er mwyn ei gwneud hi'n glir bod angen i erddi fod yn ddigon o faint ac y dylid hefyd ystyried creu ardal breifat neu gymunedol ar gyfer fflatiau.*

*4.187* Nid oes digon o ystyriaeth o le mewn perthynas â byngalos ac mae angen mynd i'r afael â hyn. *Nodwyd; fodd bynnag nodwn safonau lleiaf ac anogir y defnydd o arferion gorau. Anogir darparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol i ddatblygu atebion dylunio da i fodloni gofynion lleol.*

*4.188* Pryder nad yw'r safon arfaethedig yn cynnwys seilwaith digidol sy'n bwysig i gefnogi cynhwysiant yn ein barn ni. *Nodwyd ac rydym wedi ychwanegu gofynion cysylltu â'r we at y safon.*

*4.189* Pryder y dylai'r polisi gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall fel y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ac y gallai gael ei lywio'n well gan gynhwysiant, cydraddoldebau ac amrywiaeth, ac adlewyrchu'r agweddau hyn yn well. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi. Cynhaliwyd Asesiad Risg Rhyngweithiol cyn drafftio'r polisi a wnaeth roi sylw priodol i gydraddoldeb ac amrywiaeth.*

*4.190* Bydd hygyrchedd yn sicrhau bod pobl hŷn yn parhau wedi'u cysylltu yn eu cartrefi, ac yn byw eu bywydau mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion, ac yn cael y cyfle i gyfrannu yn eu cymuned ehangach, a byw ag urddas ac mewn ffordd annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. *Nodwyd, a dyna pam mae'r safon ar gyfer Cartrefi Gydol Oes wedi'i mabwysiadu.*

*4.191* Mae cwestiwn dilys ynghylch yr hyn i'w wneud yn achos y nifer bach o aelwydydd sydd angen llety arbenigol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn Cartrefi Gydol Oes. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer llety anghenion cyffredinol ac nid yw'n golygu na ellir dylunio ar gyfer amrywiaeth o lety, gan gynnwys anghenion arbennig, er mwyn bodloni gofynion cleientiaid.*

*4.192* Pryder am y ffaith na chyfeirir at safonau'r RNIB yn y ddogfen newydd. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn gadael y cyfrifoldeb am dai o'r radd flaenaf yn nwylo darparwyr tai y disgwylir iddynt bennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd materion o'r fath (gan ddilyn arferion gorau).*

4.193 Mae ei gwneud yn ofynnol i bob cartref fforddiadwy ddiwallu anghenion pobl anabl, neu allu gwneud hynny, yn ddrud ac yn ddiangen. *Nodwyd; fodd bynnag nid yw'n ofynnol sicrhau y diwellir anghenion pobl anabl. Ystyrir bod Cartrefi Gydol Oes yn rhesymol o ran sicrhau hygyrchedd a bydd darparwyr tai yn dylunio llety arbennig ar gyfer anghenion arbennig fel mynediad llawn i gadeiriau olwyn.*


*4.194* Credwyd bod y polisi yn ddigon cynhwysol ac yn ddigon hyblyg i ddarparwyr tai gyfrif am bob grŵp mewn cymdeithas. *Nodwyd.*


*4.195* Awgrym y gallai Llywodraeth Cymru fod yn awyddus i ystyried gallu tai fforddiadwy a106 i gynnig rhywbeth pwrpasol o ran yr angen penodol am dai lleol fel y'i pennir gan yr awdurdod lleol. *Nodwyd; fodd bynnag mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd yn barod i ddarparu ar gyfer llety o'r fath drwy'r broses gynllunio.*

*4.196* Argymhelliad y dylai'r ddogfen gyfeirio at ddyluniad sy'n ddiwylliannol briodol. *Nodwyd a newidiwyd geiriad y Rhagair yn unol â hynny.*

**4.197 Cwestiwn 10 (C10):**
**Rydym yn cynnig newid enw'r Gofynion Ansawdd Datblygu (DQR) i "Mannau a Chartrefi Prydferth" (BHS). Beth yw eich barn am y newid arfaethedig i'r enw, ac a oes gennych awgrym arall?"**


4.198 Cafwyd 61 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 5% effaith fawr, bod gan 58% effaith ganolig, ac nad oedd gan 37% unrhyw effaith o gwbl.




4.199 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 51% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.200 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 51% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 64% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.201 Cwestiwn 10 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

4.202 Pryder ynghylch confensiwn enwi goddrychol. *Nodwyd.*

4.203 Pryder nad yw'r enw yn ddigon cadarn. *Nodwyd.*

4.204 Anghytuno am nad oes gan y polisi ddim i'w wneud â 'phrydferthwch'. *Nodwyd.*

4.205 Mae Gofynion Ansawdd Datblygu yn enw adnabyddus i bobl mewn sawl proffesiwn felly nid oes angen newid yr enw, dim ond y safonau. *Nodwyd.*

4.206 Er bod yr enw arfaethedig wedi'i gyflwyno'n dda ac yn ddiau yn cael ei groesawu, nid yw'n teimlo mor awdurdodol â "Gofynion Ansawdd Datblygu". Y brif neges yn "Mannau a Chartrefi Prydferth" yw arloesedd a chynaliadwyedd, ac mae angen i'r agwedd at y dyfodol yn y neges hon gael ei hadlewyrchu yn y teitl. Ar hyn o bryd mae'r enw newydd yn teimlo yn fwy fel argymhelliad ffordd o fyw. *Nodwyd.*

4.207 Cefnogi'r enw am ei fod yn symud oddi wrth yr hyn y gellir ei ystyried yn "safon dechnegol" yn unig gan groesawu egwyddorion creu lleoedd. *Nodwyd.*

4.208 Mae'r enw a awgrymir yn ofnadwy; mae'n swnio'n fwy fel cylchgrawn DIY/Dylunio Mewnol na safon llywodraeth. *Nodwyd.*

4.209 Bydd y newid enw yn arwydd clir o newid o'r set flaenorol o safonau ond mae'r hen enw yn adlewyrchu'r cynigion yn well, sy'n dal i ganolbwyntio'n bennaf ar ddylunio da a chartrefi o ansawdd da. *Nodwyd*


4.210 Cafwyd neges glir gan y plant i'r llywodraeth eu bod am weld tai a gerddi prydferth. *Nodwyd.*


4.211 Credu y byddai'n well cadw'r geiriad gwreiddiol am fod pawb yn gwybod at beth y mae'n cyfeirio ac ni ddylid tynnu'r elfen ansawdd. *Nodwyd.*

**4.212 Cwestiwn 11 (C11):**

**"Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar newidiadau i Ran L y Rheoliadau Adeiladu (arbed tanwydd ac ynni), a Rhan F (gorgynhesu), bydd rheoliadau newydd yn dod i rym. Beth yw eich barn am y posibilrwydd o gyflwyno rheoliadau arbed tanwydd ac ynni a gorgynhesu ar gyfer tai fforddiadwy newydd yn gynnar, cyn pennu unrhyw drefniadau pontio mewn perthynas â rheoliadau adeiladu?"**


4.213 Cafwyd 57 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 19% effaith fawr, bod gan 40% effaith ganolig, ac nad oedd gan 41% unrhyw effaith o gwbl.




4.214 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 27% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.215 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 27% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 0% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.216 Cwestiwn 11 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

4.217 Cytuno oherwydd y newid yn yr hinsawdd a'r angen i weithredu ac y dylai safonau tai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd drwy "dorri tir newydd" a dechrau "paratoi at y dyfodol" cyn gynted â phosibl. *Nodwyd*

*4.218* Awgrym y dylid ei roi ar waith heb bontio, ond mae pryderon ynghylch gorfodi. *Nodwyd*

*4.219* Credwyd nad oedd unrhyw fudd ychwanegol i weithredu Rhan L ar gyfer tai fforddiadwy yn gynt. Gallai rhuthro'r broses beri problemau diogelwch ac ansawdd. Mae'r cynigion newydd yn Rhan L yn anodd yn barod, bydd angen eu rhoi ar waith yn fuan, a bydd angen i'r sector gael amser i baratoi. *Nodwyd*

*4.220* Anghytuno â chyflwyno'r newidiadau disgwyliedig i reoliadau adeiladu tai fforddiadwy yn gynnar. Dylai'r rheoliadau sydd ar waith fod yr un mor gymwys i bob datblygiad fel nad oes unrhyw ddryswch. Beth bynnag, ni nodir hyn yn y ddogfen safonau drafft mewn gwirionedd ac ymddengys fod rhoi rhywbeth mor benodol ynddi yn groes i'r awydd i symleiddio. *Nodwyd*

*4.221* Nodwyd y pryderon ynghylch yr effaith ar gostau a'r effaith ddilynol ar ddichonoldeb prosiect ac y dylai costau ychwanegol gael eu cydnabod yn y system grantiau. *Nodwyd*


4.222 Pryder y byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân ar weithredu'r rheoliadau yn gynnar. *Nodwyd*


4.223 Bydd mabwysiadu'n gynnar, er yn gam cadarnhaol ymlaen, ond yn llwyddo os bydd y farchnad yn barod o ran cael gafael ar ddeunyddiau a gweithwyr medrus i gynhyrchu a gosod y mesurau/technolegau ynni sydd eu hangen. Ar hyn o bryd ystyrir nad oes digon o gyflenwyr lleol a bod bwlch sgiliau ar gyfer gosod a chynnal a chadw technolegau ynni newydd. *Nodwyd*

4.224 Credir y byddai'n fwy buddiol ac ymarferol aros am drefniadau pontio rheoliadau adeiladu. Byddai cyflwyno rheoliadau arbed tanwydd ac ynni a gorgynhesu ar gyfer tai fforddiadwy newydd yn gynnar, cyn pennu unrhyw drefniadau pontio mewn perthynas â rheoliadau adeiladu, yn peri'r risg o gynyddu costau'n ddiangen os byddai unrhyw newid annisgwyl dilynol i reoliadau adeiladu. *Nodwyd.*

**4.225 Cwestiwn 12 (C12):**
**"Beth yw eich barn am y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad y dylai holl dai fforddiadwy newydd fodloni ansawdd EPC A (SAP 92)?"**


4.226 Cafwyd 54 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 15% effaith fawr, bod gan 39% effaith ganolig, ac nad oedd gan 46% unrhyw effaith o gwbl.




4.227 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 22% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.228 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 22% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 8% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.229 Cwestiwn 12 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.230* Pryder bod graddau EPC yn gwbl ddi-werth am nad ydynt yn cydnabod y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau. *Nodwyd; fodd bynnag bydd EPC A yn cael effaith gadarnhaol ar leihau biliau tanwydd rheoleiddiedig er y derbynnir y bydd angen i ddeiliaid tai barhau i reoli'r defnydd o danwydd. Dyma pam mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn gwneud gwelliannau i'r ffabrig adeiladu i helpu i arbed ynni.*

4.231 Cytuno'n gryf ac i'w groesawu am ei bod yn safon syml a chosteffeithiol i'w chyflawni, ond bydd angen cydnabod y costau uwch. *Nodwyd*

4.232 Barn y dylai'r holl dai newydd gael eu hadeiladu i'r safon uwch hon er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau'r caledi ariannol a brofir gan feddianwyr a gwella iechyd a llesiant meddianwyr. *Nodwyd*

4.233 Rhaid cynnwys tenantiaid yn y sgyrsiau hyn er mwyn sicrhau y gallant weithredu'r dechnoleg angenrheidiol a ddefnyddir mewn tai fforddiadwy newydd. *Nodwyd*

*4.234* Anghytuno y dylid mabwysiadu gradd EPC A darged ar gyfer cartrefi cynaliadwy am fod hynny'n arwain at gartrefi sy'n methu â bodloni rhai o'r gofynion mwyaf sylfaenol er mwyn cyflawni cartref gwirioneddol gynaliadwy, ac argymhellir y byddai ystyried dadansoddiadau cynnar ar y safle, gan arwain at ddull ffabrig yn gyntaf, a strategaeth amgylcheddol gref yn llawer mwy effeithiol nag EPC A. *Nodwyd a dyna pam mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn cyflwyno gwelliannau i'r ffabrig adeiladu a hwyluso*

*atebion amgen drwy fodelu ynni a lleihau'r galw am ynni yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru.*

4.235 Cytuno mewn egwyddor fod EPC A yn safon briodol i gyflawni'r targedau lleihau carbon fel y'u nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac ymrwymiad mwy diweddar Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon 95% erbyn 2050. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud i ymgysylltu â'r bobl a fydd yn byw mewn cartrefi sydd â'r safonau hyn o ran eu disgwyliadau a'r dechnoleg sydd ei hangen i gyrraedd y safonau. *Nodwyd*

*4.236* Ansicrwydd ynghylch y rhesymau dros gyflwyno sgôr EPC ofynnol uwchlaw'r gofynion yn ymgynghoriad Rhan L a barn mai newid y Rheoliadau Adeiladu yw'r lle gorau i'r fath reoliad. *Nodwyd; fodd bynnag nid yw'r rheoliadau adeiladu ar eu pen eu hunain yn cynnwys metrigau costau, a dyna pam yr ystyriwyd bod EPC A yn fesur mwy priodol gan yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy 2019.*

4.237 Datganiad nad yw EPC A o reidrwydd yn golygu dadgarboneiddio er ei bod yn beth da cael ffigur targed ar gyfer EPCs. *Nodwyd*


4.238 Nodwyd y pryder ynghylch cyrraedd y safon ar gyfer prosiectau adnewyddu; fodd bynnag mae'r safon yn caniatáu hyblygrwydd. *Nodwyd*


*4.239* Barn y dylai sefydliadau sydd am sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni ddefnyddio'r galw i wresogi lle yn brif fetrig, er mwyn tywys y sector i gyfeiriad adeiladau fforddiadwy, hynod effeithlon o ran ynni ac isel o ran allyriadau. *Nodwyd a dyna pam mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn cyflwyno gwelliannau i'r ffabrig adeiladu a hwyluso atebion amgen drwy fodelu ynni a lleihau'r galw am ynni yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni osodwyd targedau carbon fel carbon ymlaen llaw, carbon ymgorfforedig, y galw i gynhesu lle na metrigau dwysedd cyfanswm defnydd ynni am y tro, gan adael y sector i osod targedau yn unol ag ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.*

**4.240 Cwestiwn 13 (C13):**

**"Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau eraill sydd gennych am y polisi newydd arfaethedig ac am y cynigion ynghylch ei roi ar waith"**


4.241 Cafwyd 37 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 8% effaith fawr, bod gan 68% effaith ganolig, ac nad oedd gan 24% unrhyw effaith o gwbl.




4.242 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 70% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.243 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 70% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 22% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.244 Cwestiwn 13 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.245* Byddai tai Fforddiadwy o Ansawdd i bobl hŷn yn sicrhau eu bod yn byw'n annibynnol ac yn ddedwydd am fwy o amser, a thrwy hynny yn gallu cyfrannu'n fwy at y gymuned a'u teuluoedd drwy wirfoddoli. Dylai'r gofid a'r costau sydd ynghlwm wrth broblemau'n ymwneud â hen dai gael eu cydnabod yn benodol mewn polisi datblygu. *Cydnabyddwn y pryderon hyn ond teimlir bod mabwysiadu'r safon o ran Cartrefi Gydol Oes yn cyflawni'r rhwymedigaeth.*

*4.246* Mae angen i'r safon fod yn gysylltiedig â gofynion seilwaith gwyrdd a chymeradwyo draenio cynaliadwy. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi. Fodd bynnag, mae'r cyflwyniad wedi cael ei ddiwygio i gyfeirio at gynaliadwyedd ecolegol a gwerthoedd cymunedol.*

4.247 Dylid hefyd ystyried polisïau eraill ym maes cynaliadwyedd fel monitro perfformiad ynni sy'n arfer orau yn ardal Awdurdod Llundain Fwyaf, ac yn bolisi safonol ym Mwrdeistref Ealing yn Llundain (Polisi 5.2.3). *Nodwyd ac mae hyn wedi arwain at ddiwygio'r safon gan awgrymu asesiad fel y'i hadeiladwyd o garbon gydol oes a gwerthusiad ôl feddiannu o berfformiad yr adeilad o ran y bwriad dylunio.*

4.248 Cefnogir cyflwyno'r safon newydd i gyd-fynd â'r broses grant newydd. *Nodwyd.*

*4.249* Bydd arloesedd, Dulliau Adeiladu Modern, safonau maint lleiaf, a dyluniad carbon isel o'r radd flaenaf i gyd yn effeithio ar gost datblygu. *Nodwyd y pryderon am gostau; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

*4.250* Mae rhywfaint o bryder bod Gofyniad 1 yn rhy amwys ac y gallai fod ychydig yn fwy rhagnodol. Yn arbennig, gellid ei ystyried yr ymgais i ddefnyddio cynhyrchion rhatach/ safon is er mwyn cynyddu gwerth am arian a gellid ei atgyfnerthu i gynyddu'r gofyniad, yn hytrach na dim ond gwneud awgrymiadau. Awgrymwn y dylid tynnu'r term gwerth am arian o'r datganiad hwn. Beth am roi'r canlynol yn ei le "Dylai'r gwaith o ddadansoddi dichonoldeb cyflawni'r cynllun gynnwys dadansoddiad costau gydol oes, gan asesu costau cynnal a chadw a chostau rhedeg yn y dyfodol, ynghyd ag arbedion carbon ac ynni ar ben y gost gyfalaf". *Nodwyd, ond ni fyddem yn cytuno bod y geiriad yn annog cynhyrchion rhatach. Mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol yn dilyn cyngor i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

*4.251* Pryder nad oes unrhyw ddarpariaethau diogelwch. Wrth gwrs, mae diogelwch tân yn faes hynod bwysig i'w ystyried. Mae diogelwch strwythurol a thrydanol hefyd yn feysydd y gallem ddisgwyl eu gweld yn y safon. *Arweiniodd hyn at ofynion ychwanegol yn Rhan 3.*

*4.252* Mae'n bosibl y collwyd cyfle i ymgynghori â thenantiaid ar y fframwaith arfaethedig hwn yn benodol. *Nodwyd; fodd bynnag bu sawl math o ymgynghoriad ynghlwm wrth y safon hon, gan gynnwys dau adolygiad o dai fforddiadwy ac ymgyngoriadau anffurfiol â'r sector, yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn a oedd yn agored i'r cyhoedd.*

4.253 Dylai'r ddogfen arwain â themâu lleihau carbon, a chreu lleoedd, a defnyddio'r ddwy elfen hyn i egluro'r rhesymeg dros elfennau eraill. Hefyd, nid yw'r ddogfen fel ag y mae yn cyfeirio at seilwaith glas/gwydd, na gofynion SUDS. Dylai'r rhain gael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddylunio ynghyd â bioamrywiaeth. *Arweiniodd hyn at wneud diwygiadau i'r Rhagair.*

*4.254* Nid yw anheddau sy'n wynebu'r gogledd yn unig yn dderbyniol. *Nodwyd; fodd bynnag mae polisïau llywodraeth sylfaenol eraill yn llywio gofynion dylunio tai ac mae'r safon newydd yn cyd-fynd â'r sbardunau hyn er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i dai cymdeithasol. Ni fyddai'n ymarferol bod yn benodol am y cyfeiriad y mae annedd yn ei wynebu.*

*4.255* Dylai datblygiadau cynaliadwy gynnwys targedau lleihau carbon ac ynni penodol, a nodir yn eu strategaethau amgylcheddol, er mwyn cyfrif am y gwaith monitro a'r asesiad o berfformiad angenrheidiol a'u hwyluso. Byddai dadansoddiad costau carbon gydol oes hefyd o fudd. *Nodwyd; ac mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

4.256 Argymhelliad cryf i fabwysiadu safonau ar gyfer carbon ymgorfforedig (kg/m2/bl) ac ynni gweithredol (dwysedd defnydd ynni – kWh/m2/yr) sy'n seiliedig ar ymchwil gadarn a phrofiad, fel gan Fenter Trawsnewid Ynni Llundain (LETI), Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU, Ymddiriedolaeth Passivhaus ac Energiesprong UK (yn seiliedig ar eu profiad byd-eang). *Nodwyd; fodd bynnag ni osodwyd targedau carbon fel carbon ymlaen llaw, carbon ymgorfforedig, y galw i gynhesu lle na metrigau dwysedd cyfanswm defnydd ynni am y tro, gan adael y sector i osod targedau yn unol ag ymrwymiadau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.*

*4.257* Ystyrir ei bod hi'n bwysig iawn bod ceir yn hygyrch i bobl fregus neu anabl. Fodd bynnag, ni ddylid gadael i barcio ceir ddominyddu strydoedd, yn enwedig lle gall hyn beryglu plant bach, neu gerddwyr yn gyffredinol. *Nodwyd; fodd bynnag gofynion polisïau cynllunio Awdurdodau Lleol sy'n llywio darpariaeth parcio at ei gilydd.*

*4.258* Nid yw Dulliau Adeiladu Modern yn ben llanw ynddynt eu hunain. Mae dadl barhaus ynghylch a fydd Dulliau Adeiladu Modern yn arwain at arbedion cost hirdymor. Yn y sefyllfa hon, mae angen inni fod yn sicr ynghylch defnyddio unrhyw ddatblygiadau technolegol sydd o fudd i'r meddianwyr a'r amgylchedd, p'un a ydynt yn newid graddol o gymharu ag adeiladu â brics/blociau/ceudod. Rhaid bod gennym werthusiad trylwyr sydd ar gael i'r cyhoedd o unrhyw ddull adeiladu modern a ddefnyddir, fel na fydd dulliau anaddas yn parhau. *Nodwyd y pryderon.*

*4.259* Nid ymddengys fod y nod o fod yn garbon niwtral yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. *Nodwyd ac mae'r adran ar gynaliadwyedd, carbon sero net a'r economi gylchol wedi'i geirio'n wahanol i fod yn gyson â pholisïau sy'n helpu Cymru i greu dyfodol carbon sero net.*

*4.260* Er mwyn llwyddo i ddarparu tai fforddiadwy drwy Gytundebau Cynllunio, rhaid bod cyd-destun polisi clir (CDLl/Canllawiau Cynllunio Atodol) a diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Adeiladu presennol. *Bydd diwygiadau i bolisïau cynllunio yn mynd i'r afael â'r pryderon.*

4.261 Pryder bod angen i'r broses gael ei monitro'n ofalus er mwyn cyrraedd y safonau ansawdd a gofod uchaf. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

4.262 Yn Atodlenni Mannau a Chartrefi Prydferth nid oes unrhyw sôn am systemau chwistrellu a all beri anawsterau wrth eu gosod mewn cartref am gost resymol, yn enwedig wrth wasanaethu fflatiau. *Nodwyd; fodd bynnag mae systemau o'r fath yn orfodol yn barod.*

*4.263* Byddai'n fuddiol i'r safonau newydd gydnabod pa mor gymwys yw safonau anghenion arbennig, naill ai'n gyffredinol neu mewn achosion penodol lle ceir eithriad neu ofyniad penodol. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer tai anghenion cyffredinol ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau), yn enwedig ar gyfer anghenion tai eraill.*

*4.264* Diffiniad o dai fforddiadwy – nid yw'r ddolen yn iawn Tudalen 1. *Mae'r ddolen ar gyfer y diffiniad o dai fforddiadwy wedi cael ei chywiro.*

*4.265* Roedd rhagair y safonau arfaethedig blaenorol o 2016 yn cyfeirio at Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Rhan 4 o ran lle mae'r safonau hyn wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth. Roedd hefyd yn nodi bod y safonau yn bodoli i ddiogelu buddsoddiad cyhoeddus mewn darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru a diogelu buddiannau eu tenantiaid. Byddai rhoi'r wybodaeth hon yn y ddogfen ar gyfer y safonau newydd yn darparu cyd-destun defnyddiol i egluro'r sail gyfreithiol a'r diben. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi na rheoliad.*

*4.266* Yn gyffredinol, dylai'r ddogfen safonau gynnwys cyflwyniad trylwyr a chlir sy'n nodi diben y safonau, i bwy a beth mae'r safonau yn gymwys a ddim yn gymwys, a chydnabod a gwahaniaethu rhwng safonau eraill fel Safon Ansawdd Tai Cymru a

Rheoliadau Adeiladu. *Nodwyd; fodd bynnag nid ystyrir bod angen cyfeirio at reoliadau adeiladu na safonau eraill fel SATC nad ydynt yn gymwys i dai newydd.*

*4.267* Pryderon am y prinder tai yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus oherwydd materion polisi cynllunio. *Nid yw materion cynllunio yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond nodwyd y pryderon am y cyflenwad.*

4.268 Mae'n bwysig deall yn llawn lle a pham roedd methiannau yn y GAD. Er y croesewir y polisi newydd arfaethedig, mae angen i'r broses o'i roi ar waith gael ei dylunio'n ofalus, ac mae angen i'r polisi gael ei gyflwyno a'i fonitro mewn partneriaeth agos â'r diwydiant, er mwyn sicrhau nad yw'r problemau a nodwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn 2019 yn codi eto gyda'r polisi newydd. *Nodwyd yr argymhelliad; fodd bynnag darparwyr tai sy'n gyfrifol am ofynion o'r fath.*

*4.269* Mae angen rhagor o wybodaeth am yr angen i ddangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofyniad polisi newydd. *Disgwylir i ddarparwyr tai ddangos cydymffurfiaeth fel rhan o broses asesu craffu Llywodraeth Cymru. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw graffu efallai, mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

*4.270* Ni chyfeirir at faint gerddi na safonau gofynnol y tu allan i'r cartref, ac nid oes unrhyw gyfeiriad at chwarae y tu allan nac yn y gymdogaeth. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau) gan gynnwys materion fel amwynderau allanol a fydd hefyd yn cael eu llywodraethu gan bolisïau cynllunio.*

*4.271* Prin iawn yw'r dolenni na'r cyfeiriadau at ddogfennau cysylltiedig eraill, fel Polisi Cynllunio Cymru. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon newydd yn un o blith llawer o ddogfennau polisi sy'n creu cyfres o safonau sy'n cyflawni agenda ehangach Llywodraeth Cymru o ran ansawdd ac nid ystyrir bod angen croesgyfeirio pob mater polisi.*

*4.272* O ystyried bod trafnidiaeth gynaliadwy yn cael ei hannog, synnu nad oes sôn am gyfleusterau storio beiciau na mannau gwefru trydan. *Arweiniodd hyn at ddiwygiad i gynnwys y gofyniad am gyfleusterau storio beiciau ac ystyried ffyrdd cynaliadwy o deithio.*

*4.273* Mae'r ddogfen a'i bwriad yn cyfleu negeseuon cymysg o ran cymhwyso eitemau at dai fforddiadwy yn unig ac yna nodi syniad cyffredinol o'u cymhwyso at bob datblygiad newydd ar ryw bwynt. *Nodwyd a bydd gwneud y safon yn berthnasol i bob deiliadaeth yn destun adolygiad polisi yn y dyfodol.*

*4.274* Gellir dehongli elfennau o'r ddogfen. *Nodwyd; fodd bynnag mae gallu dehongli safon hyblyg yn fwriadol.*

*4.275* Pa mor aml y caiff y ddogfen ei hadolygu er mwyn monitro ei heffeithiau a hefyd amgylchiadau newidiol? *Nodwyd y cwestiwn ac er y bydd effaith y safon yn cael ei hadolygu'n gyson, ni fydd angen i'r safon gael ei diweddaru cymaint oherwydd ei natur syml.*

*4.276* Mae llawer o systemau gwresogi clyfar yn dibynnu ar gysylltedd â'r rhyngrwyd. A fydd grantiau ar gael i denantiaid gael band eang neu a fydd grantiau cyfalaf ar gael ar gyfer band eang cyflym iawn? *Nodwyd y pryderon am y cysylltedd â'r rhyngrwyd. Er mai mater i ysgogwyr polisi eraill yw hwn, mae'r safon wedi'i diwygio i gydnabod y gofynion.*

*4.277* Mae llawer o awdurdodau bellach yn gofyn am ardal awyr agored, fel balconi mewn fflat. *Mae hyn wedi arwain at ddiwygio'r safon er mwyn rhoi ystyriaeth i greu ardal breifat neu gymunedol ar gyfer fflatiau.*

*4.278* Byddai sefydliadau yn cael budd o eglurder a diffiniadau ar gyfer termau fel 'ansawdd uchel' a ddefnyddir yn y ddogfen. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

4.279 Mae angen cydnabod y gall y safonau hyn gael effaith ar faint o dir sydd ar gael, ynghyd â dichonoldeb a nifer yr unedau a gyflawnir. *Nodwyd y pryderon am y cyflenwad; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

4.280 Mae angen inni ddiffinio sut rydym am i dai newydd berfformio pan fyddant wedi'u hadeiladu, drwy broses ddilysu/ardystio annibynnol a gefnogir gan Werthusiad o Berfformiad Adeilad sy'n ofyniad rheoleiddiedig. *Nodwyd ac mae hyn wedi arwain at ddiwygio'r safon gan awgrymu asesiad fel y'i hadeiladwyd o garbon gydol oes a gwerthusiad ôl feddiannu o berfformiad yr adeilad o ran y bwriad dylunio.*


*4.281* Nid oes cyfeiriad penodol at fannau gwefru ceir. *Nodwyd; fodd bynnag mater i'r darparwr tai fydd hyn o hyd.*


*4.282* Er y croesewir y cynigion i adeiladu i safonau newydd, os cânt eu gweithredu ar eu pen eu hunain heb ystyried newidiadau ymddygiadol a diwylliannol, yna gallai unrhyw welliannau gael eu colli o bosibl drwy gamddefnyddio technoleg/diffyg cefnogaeth gan breswylwyr. *Nodwyd y pryderon am newid ymddygiad; fodd bynnag darparwyr tai sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor o'r fath, er enghraifft drwy ddarparu canllawiau effeithiol i ddeiliaid tai.*

**4.283 Cwestiwn 14 (C14):**

**" Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r polisi newydd arfaethedig eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."**


4.284 Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 0% effaith fawr, bod gan 21% effaith ganolig, ac nad oedd gan 79% unrhyw effaith o gwbl.




4.285 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 16% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.286 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 16% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 0% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.287 Cwestiwn 14 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.288* Mae polisi tai cymdeithasol yn arbennig yn tanseilio cadernid cymunedau Cymraeg (fel y nodwyd gan bobl hŷn a phobl iau) - dylid cynnal asesiadau risg ystyrlon o raddau datblygiadau o ran lleoliad a pholisi tai cymdeithasol. *Nodwyd a dyna pam y cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg*

*4.289* Defnyddio acronym mwy Cymraeg na DQR. *Nodwyd a chaiff y cyhoeddiad ei lunio yn y ddwy iaith er mwyn defnyddio gwahanol acronym.*


4.290 Nid ystyriwn y bydd y polisi newydd yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, ond dylid llunio fersiynau dwyieithog. *Nodwyd a gwnaed.*


*4.291* Os bydd gorbenion uwch yn cynyddu prisiau tai, gan olygu na all pobl leol brynu cartrefi, gall fod effaith negyddol ar gymunedau lle mae'r Gymraeg mewn sefyllfa fregus fel Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n rhannu ffin â siroedd mwy cefnog yn Lloegr, fel Gorllewin Swydd Gaer a Sir Amwythig. *Nodwyd y pryderon am y cyflenwad; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

**4.292 Cwestiwn 15 (C15):**

**"Eglurwch hefyd sut y gallai'r polisi newydd arfaethedig yn eich barn chi gael ei lunio neu ei newid er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."**


4.293 Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 0% effaith fawr, bod gan 42% effaith ganolig, ac nad oedd gan 58% unrhyw effaith o gwbl.




4.294 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 0% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.295 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 0% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 0% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.296 Cwestiwn 15 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.297* Cyflwyno mwy o Ddulliau Adeiladu Modern Cymreig i'r safonau. *Nodwyd; fodd bynnag penderfynwyd na fyddai'r safon yn nodi'n benodol gynhyrchion rhanbarthol er mwyn galluogi darparwyr tai i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar sail gwybodaeth. Fodd bynnag mae'r safon wedi cael ei diwygio er mwyn annog y defnydd mwyaf effeithlon o bren wrth adeiladu tai er mwyn cynyddu cyfraddau storio carbon mewn cynhyrchion pren wedi'i gynaeafu yng Nghymru.*

*4.298* Mae datblygu Fframwaith Adeiladu ar gyfer y de a'r gogledd yn gadarnhaol ac mae angen iddo gael ei gefnogi gan bob darparwr tai a Llywodraeth Cymru. Bydd y Fframwaith yn helpu busnesau i dyfu yng Nghymru a bydd yn atgyfnerthu cymunedau Cymreig yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. *Nodwyd; fodd bynnag mater caffael yw hwn ac nis cwmpesir gan y safon ansawdd tai.*


4.299 Ychwanegu enwau ffyrdd Cymraeg at ddatblygiadau newydd fel mater o bolisi. *Nodwyd*


4.300 Cynigir newid yr enw o DQR; efallai y byddai enw Cymraeg yn lle enw Saesneg yn well. Byddai'n rhoi brand Cymreig unigryw i'r safon, gan osgoi unrhyw ddryswch posibl

â mentrau a all gael eu cyflwyno yn Lloegr. *Nodwyd a chaiff y cyhoeddiad ei lunio yn y ddwy iaith er mwyn defnyddio gwahanol acronym.*

**4.301 Cwestiwn 16 (C16):**
**"Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi."**


4.302 Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 0% effaith fawr, bod gan 38% effaith ganolig, ac nad oedd gan 62% unrhyw effaith o gwbl.




4.303 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 23% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.304 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 23% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 13% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.305 Cwestiwn 16 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.306* Wrth i fwy o bobl weithio gartref, mae'n rhaid sicrhau bod cartrefi'r dyfodol yn darparu lle addas yn y cartref i weithio. *Nodwyd a bwriedir i'r safon ar gyfer gofod sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol. Mater i'r darparwr tai yw bodloni ei hun bod darpariaethau addas ar gyfer gweithio gartref.*

*4.307* Angen seilwaith digidol i gefnogi cynhwysiant a gweithio gartref. *Arweiniodd hyn at ddiwygio'r safon er mwyn cyfeirio at gysylltedd â'r rhyngrwyd.*

*4.308* Mae angen i bobl sy'n byw mewn fflatiau ac nad oes ganddynt ardd gael lle yn yr awyr agored, felly a ddylid ystyried ardal gymunedol o faint rhesymol sydd ar gael i bawb. *Nodwyd y pryderon o ran ardal amwynder; fodd bynnag nodwn safonau lleiaf ac anogir y defnydd o arferion gorau. Anogir darparwyr tai a'u cynghorwyr proffesiynol i ddatblygu atebion dylunio da i fodloni gofynion lleol, yn enwedig o ran ardal awyr agored. Fodd bynnag, mae Rhan 3f wedi cael ei diwygio i ystyried darparu ardal breifat neu gymunedol ar gyfer fflatiau.*

*4.309* Mae'n bwysig adlewyrchu natur nodedig a chyfoethog diwylliant. *Nodwyd a arweiniodd at Ragair diwygiedig.*

*4.310* Er nad yw'r gofynion newydd mor rhagnodol â DQRs, mae rhai agweddau o hyd sy'n eithaf penodol e.e. safonau gofod a Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae gennym safleoedd sy'n heriol i'w datblygu oherwydd cyfyngiadau fel y perygl o lifogydd a thopograffi, felly byddai'n ddefnyddiol gallu gwneud mân amrywiadau. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon ar gyfer gofod yn anelu at sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol. Arweiniodd y sylw hwn at ddiwygiadau i gyflwyno elfen o hyblygrwydd i'r safonau o ran gofod.*

*4.311* Mae mater fforddiadwyedd o ran "Arferion Gorau" yn bwysig iawn wrth feddwl am ddatblygiadau bach yng nghefn gwlad, sy'n aml yn fwy heriol oherwydd materion fel costau annormal uchel yn sgil cyflwr y ddaear, argaeledd gwasanaethau/seilwaith ac ati a diffyg arbedion maint. Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd uchel yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau. *Nodwyd y pryderon am gostau; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel ac mae modelau cyllido yn cydnabod cost ychwanegol cynlluniau llai o faint.*


*4.312* Pryder ynghylch cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy, fel pren wrth godi adeiladau. *Nodwyd y pryderon; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*


*4.313* Bydd angen i amseriad cyflwyno'r safon newydd werthfawrogi cynlluniau sydd eisoes ar y blaen o ran eu dylunio a'u cynllunio felly bydd angen cyfnod pontio sy'n ystyried hyn. *Nodwyd.*

4.314 Mae'r plant wedi nodi'n glir sut y dylai cartrefi newydd fod ac y dylai cartrefi newydd fod yn fawr, gydag ystafelloedd gwely i blant sy'n weddol o faint, a cheginau ac ystafelloedd ymolchi sy'n ddigon mawr i deulu. Dylai fod llawer o ystafelloedd gwahanol a gerddi sy'n ddigon mawr i chwarae ynddynt. Dylent fod yn fodern, yn edrych a theimlo'n arbennig, a chael eu gwneud yn brydferth drwy blannu blodau yn yr ardd a defnyddio lliwiau, patrymau a dyluniadau deniadol ar gyfer y tŷ ei hun. Byddai ystafell chwarae o fudd mawr i blant, a byddai ystafell i ddysgu gartref yn ddefnyddiol yn ystod pandemig. *Nodwyd.*

**4.315 Cwestiwn 17 (C17):**
**"O ystyried effaith COVID-19 a fydd yn newid y ffordd yr ydym yn byw yn ein cartrefi ac yn eu defnyddio, nodwch unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu at y safonau ac unrhyw awgrymiadau eraill sy'n ymwneud â'r pandemig yr ydych chi am inni eu hystyried."**


4.316 Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn – ystyriwyd bod gan 3% effaith fawr, bod gan 88% effaith ganolig, ac nad oedd gan 9% unrhyw effaith o gwbl.




4.317 Er bod cefnogaeth eang i'r polisi, mynegodd 57% o'r ymatebion bryderon, gan herio agweddau ar y cynigion a oedd yn gofyn am eu hadolygu a'u hystyried.

4.318 Yn sgil y canrannau ar gyfer effaith fawr a chanolig, ynghyd â'r 57% a fynegodd bryderon ac a heriodd y polisi, arweiniodd 27% o'r ymatebion at wneud newid perthnasol i'r safon arfaethedig.




**4.319 Cwestiwn 17 – themâu'r ymatebion, crynodebau a sylwadau**

*4.320* Mae angen lle penodol i weithio gartref a lle yn yr awyr agored, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau hygyrch. *Nodwyd y pryderon am swyddfa gartref ac ystyriwyd hynny yn y safon. Mae'r safon wedi'i diwygio i gynnwys lle ychwanegol yn yr awyr agored ond nid yw materion ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus nac amwynderau eraill yn dod o dan y safon.*

*4.321* Mae DQR yn canolbwyntio ar y cartref a'r cwrtil i raddau helaeth ond, gyda COVID-19, mae wedi dod yn fwy amlwg bod angen rhoi'r un sylw i sicrhau bod cartrefi yn addas i weithio gartref ynddynt, a'u bod wedi'u hadeiladu yn agos at gyfleusterau fel siopau, mannau agored ac amwynderau eraill. *Nid yw materion ynghylch amwynderau eraill yn dod o dan y safon, ond mae'r cyflwyniad wedi'i ddiwygio i gyfeirio at gynaliadwyedd ecolegol a gwerthoedd cymunedol.*

4.322 Mae gweithio gartref yn gofyn fwyfwy am gysylltiad da â'r rhyngrwyd, felly dylai fod gan bob cartref fand eang ffeibr. *Arweiniodd hyn at ddiwygio'r safon.*

*4.323* Bydd y bobl hynny sydd bellach yn gweithio gartref wedi gweld eu biliau ynni yn cynyddu am eu bod gartref yn fwy. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach yr angen i sicrhau bod cartrefi yn dod yn fwy hunanddigonol fel na chosbir y rhai sy'n gorfod gweithio gartref. *Yn sgil y sylw hwn cyflwynwyd safonau ynni uwch er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch biliau tanwydd.*

*4.324* Bydd angen gwerthuso herio gweithio gartref, dysgu gartref ac yn gyffredinol bod gartref yn fwy, gyda'r pwysau ychwanegol y mae hynny'n ei roi ar gydberthnasau. *Yn sgil y sylw hwn diwygiwyd y Rhagair o ran pwysigrwydd iechyd meddwl.*

*4.325* Dylai datblygiadau tai cymdeithasol a rhai'r farchnad dorfol anelu at greu cymunedau, nad yw'n digwydd ar hyn o bryd yn ôl pob golwg. Mae COVID-19 yn gorfodi pawb i ddefnyddio ein strydoedd i wneud ymarfer corff a darparu lle i gymdogion gwrdd yn yr awyr agored. Mae stadau tai presennol dan eu sang ac nid oes mannau agored lle y gall pobl wneud ymarfer corff neu gyfarfod. Dylai datblygiadau newydd fynd ati i gynnwys cymunedau sydd yno'n barod, cynnig cyfleoedd i ymlacio i bobl o bob oed drwy ddarparu mannau agored a chyfleusterau cymunedol dan do, a darparu lle sy'n fodd i iechyd, gofal a thai ddod ynghyd heb fod angen teithio. *Arweiniodd hyn at wneud diwygiadau i'r cyflwyniad er mwyn cyfeirio at werthoedd cymunedol.*

4.326 Mae'r pandemig wedi pwysleisio bod angen cartrefi hyblyg i allu gweithio gartref a bod angen ardaloedd preifat yn yr awyr agored. *Arweiniodd hyn at ychwanegu gofynion at adran 3 ar amwynderau a gerddi preifat a diwygiwyd testun ynghylch cartrefi i'r teulu.*

*4.327* Rhaid darparu lle yn yr awyr agored ond mae gwrthdaro o ran fforddiadwyedd i ddeiliaid a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Dim ond drwy ardal gymunedol y gall rhai cynlluniau ddarparu lle yn yr awyr agored sy'n gost y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn mynd iddi, a byddant yn ceisio adennill y gost honno drwy daliadau gwasanaeth. *Nodwyd y pryderon am gostau cynnal a chadw ardaloedd cymunedol; fodd bynnag mae'r safon yn ymateb i'r trywydd a ddilynir gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cartrefi cynaliadwy o ansawdd uchel.*

*4.328* Drwy gynnwys safon Cartrefi Gydol Oes mae'r dyluniad yn llai hyblyg. *Nodwyd; fodd bynnag ni dderbynnir hyn os ydym am adeiladu cartrefi sy'n addas at y dyfodol.*

*4.329* Mae angen i'r polisi arfaethedig fod yn fwy penodol ynghylch y gallu i hunanynysu. Wrth gwrs, mae hyn yn llawer anoddach pan fydd pobl ar ben ei gilydd neu'n rhannu cyfleusterau, ond mewn byd yn dilyn COVID-19 rhaid i'r gallu i hunanynysu fod yn benderfynydd allweddol wrth ystyried digonolrwydd tai. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon ar gyfer gofod lleiaf yn anelu at sicrhau bod pob cartref newydd yng Nghymru yn addas at y diben nawr ac yn y dyfodol, a chyflwynwyd elfen o hyblygrwydd a ddylai helpu i ddiwallu anghenion o'r fath yn y dyfodol, fel hunanynysu.*

*4.330* Mae cyfle i ddatblygu naratif newydd lle mae effeithlonrwydd ynni yn ganolog i fyw'n gyfforddus a chael lle i weithio. Mae angen gwneud cysylltiadau cryfach ag iechyd y cyhoedd a'r hyn sy'n dylanwadu arno fel cysur thermol, goleuadau, ansawdd aer, acwsteg a golygfeydd natur. Gall cyfuno'r elfennau hyn â dull cyfannol o fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni wella iechyd a llesiant meddianwyr. Felly, dylai cartrefi gael eu dylunio mewn ffordd sy'n gwella llesiant meddianwyr drwy ystyried y ffactorau hyn sy'n effeithio ar iechyd. *Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r pryderon am filiau ynni tenantiaid mewn cartrefi newydd drwy ragori ar y rheoliadau presennol a dilyn dull ffabrig yn gyntaf. Nodir y sylwadau am iechyd a llesiant yng nghyflwyniad Rhagair newydd i'r safon.*

4.331 Cafodd COVID-19 effaith anghyfartal ar gymunedau difreintiedig neu nas gwasanaethir yn ddigonol yng Nghymru. *Nodwyd.*

*4.332* Bydd seiclo yn dod yn llawer pwysicach yn ein hymateb i'r newid yn yr hinsawdd, argyfwng COVID-19, targedau iechyd y cyhoedd ar gyfer ymarfer corff, a lleihau nifer y bobl sydd dros bwysau ac yn ordew yng Nghymru. *Nodwyd ac arweiniodd hyn at ddiwygio Rhan 2 i gynnwys y gofyniad am gyfleusterau storio beiciau ac ystyried ffyrdd cynaliadwy o deithio.*

*4.333* Mae aer o ansawdd da dan do yn hanfodol i iechyd da. *Nodwyd; fodd bynnag mae materion amgylcheddol fel ansawdd aer y tu hwnt i gwmpas y safon hon ar y cyfan ac fe'u rheoleiddir gan gyrff rheoli adeiladu.*

*4.334* Drysau awtomatig mewn ardaloedd cymunedol i leihau pwyntiau cyffwrdd. *Nodwyd; fodd bynnag mae'r safon yn amlinellu'r weledigaeth ac yn gadael y cyfrifoldeb am ofynion mor fanwl yn nwylo darparwyr tai sy'n gorfod pennu eu hagenda eu hunain o ran ansawdd (gan ddilyn arferion gorau).*

**5. Ymateb Llywodraeth Cymru**

5.1 Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn galonogol, gyda 77 o ymatebwyr, gan gynnwys ystod eang o randdeiliaid o'r sector tai. Roedd yn arbennig o ddiddorol cael barn grŵp o blant "Pupils 2 Parliament" a wnaeth ganolbwyntio ar bwysigrwydd cael digon o le yn y cartref. Hefyd gofynnwyd i'r plant ddewis enw terfynol ar gyfer y safon.

5.2 Roedd cryn gefnogaeth i'r safon, ond cododd traean o'r ymatebion bryderon, gyda 19% o'r ymatebion yn arwain at ddiwygio'r safon.

5.3 Roedd llawer iawn o ddiddordeb mewn hygyrchedd (Cartrefi Gydol Oes), safonau gofod a dylunio carbon isel a gwnaeth pump o'r cwestiynau arwain at safbwyntiau mwy heriol nag eraill yn nodedig...

5.3.1 **Mabwysiadu'r safon ar gyfer pob cartref ni waeth beth fo'r ddeiliadaeth** (Cwestiwn 7). Roedd y safbwyntiau'n ymwneud â'r lleihad posibl mewn cyflenwad, costau ychwanegol a pheth pryder am reoleiddio'r safon petai'n cael ei gweithredu ar gyfer pob deiliadaeth ar ôl 2025. Nid oedd angen diwygio'r safon oherwydd bydd angen ystyried y pryderon pan wneir newidiadau polisi yn y dyfodol cyn ei rhoi ar waith.

5.3.2 **Safonau gofod lleiaf** (Cwestiwn 8). Yn sgil pryderon adeiladwyr tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol, ynghyd â barn gweinidogion y gwyddir amdani, cyflwynwyd elfen o hyblygrwydd fel bod safonau Cymru yn debycach i'r Safonau o ran Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol yn Lloegr.

5.3.3 **Enw arfaethedig y safon** (Cwestiwn 10). Bu cryn wrthwynebiad i'r enw a phenderfynwyd ei newid er mwyn adlewyrchu'r pryderon. Gofynnwyd am farn 55 o blant 8-11 oed o Ysgol Gynradd Llanandras a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad, a gwnaethant bleidleisio dros bedwar enw newydd a awgrymwyd. Chwaraeodd y plant ran bwysig yn y penderfyniad a dewiswyd "Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021" ganddynt, sydd â'r is-deitl "Creu Mannau a Chartrefi Prydferth", fel enw newydd y safon dai.

5.3.4 **Cyflwyniad newidiadau yn gynnar i'r rheoliadau adeiladu arbed tanwydd a thrydan** (Cwestiwn 11). Er bod sawl ymateb o blaid eu cyflwyno'n gynnar, roedd pryderon am gostau a diffyg sgiliau o ran gwaith gosod a'r defnydd aneffeithlon o dechnolegau newydd a'u hôl troed carbon. Hefyd, er y gallai tai fforddiadwy fod yn gweithredu'r rheoliadau adeiladu newydd ryw flwyddyn cyn y gofynion rheoliadol, heb fod gweithdrefnau rheoli adeiladu ar waith, codwyd pryderon am y gwaith o reoleiddio'r cam cyflwyno cynnar.

5.3.5 **Cyflwyno EPC A** (Cwestiwn 12). Mae anghytundeb yn y diwydiant am y defnydd o raddau ynni EPC i lywio dylunio carbon isel a lleihau biliau gwresog oherwydd, ar adegau, gall gradd ynni EPC fod yn groes i leihau carbon. Fodd bynnag, ystyrir bod EPC A yn fesur digon defnyddiol i annog lleihau biliau tanwydd tenantiaid. Mae'r safonau wedi'u diwygio i gynnwys adran ar ynni sydd wedi'i haddasu drwy ei gwneud yn ofynnol i gyflawni sgôr ynni EPC A (SAP92 neu'n uwch) drwy safon ffabrig leiaf a heb ddefnyddio boeleri sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na roddir y gorau i atebion dylunio carbon isel o ansawdd uchel fel safon Passivhaus, bydd cynigion amgen i EPC A a boeleri nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosil yn dderbyniol lle gellir dangos, drwy ardystiad annibynnol, fod galw am ynni'r adeilad yn llai yn unol â Hierarchaeth Ynni Cynllunio ym Mholisi Polisi Cynllunio Cymru.

5.4 Wrth ystyried yr ymatebion i holl gwestiynau'r ymgynghoriad, gwnaed y diwygiadau sylweddol canlynol i'r safon.

5.4.1 Newidiwyd y teitl i "Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021", sydd â'r is-deitl "Creu Mannau a Chartrefi Prydferth".
5.4.2 Cyflwynwyd rhagair sy'n cyfeirio at gartrefi iach, llesiant, iechyd meddwl, addasrwydd diwylliannol, creu lleoedd, ecoleg a chynaliadwyedd.
5.4.3 Cywirwyd y cyfeiriad at y diffiniad o dai fforddiadwy â dolen i TAN 2.
5.4.4 Diwygiwyd yr adran ar Ddulliau Adeiladu Modern i nodi mai dyma un o'r dulliau a ffefrir i fod yn unol â Pholisi Gweithredu Dulliau Adeiladu Modern Llywodraeth Cymru ac ychwanegwyd dolen at y polisi.
5.4.5 Newidiwyd geiriad yr adran ar yr economi gylchol i gynnwys cyfeiriad at ddatgarboneiddio.
5.4.6 Cafodd yr adran ar ynni ei geirio o'r newydd yn llwyr.
5.4.7 Cafodd Rhan 2 ei diwygio i gynnwys gofynion storio beiciau.
5.4.8 Yn Rhan 2(d) cafodd y gair "lleiaf" ei dynnu fel bod elfen o hyblygrwydd i'r Atodiad safonau o ran gofod.
5.4.9 Gwahanwyd Rhan 2(j) oddi wrth 2(i) i egluro'r gofyniad i ystyried lle i bobl aros dros nos.
5.4.10 Ychwanegwyd Rhan 2(m) yn ymwneud â chysylltedd â'r rhyngrwyd.
5.4.11 Diwygiwyd Rhan 3(f) er mwyn ei gwneud hi'n glir bod angen i erddi fod yn ddigon o faint ac y dylid hefyd ystyried creu ardal breifat neu gymunedol ar gyfer fflatiau.
5.4.12 Diwygiwyd Rhan 3(h) ar gyfer larymau carbon monocsid a gysylltir â'r prif gyflenwad trydan ac ychwanegwyd darpariaethau diogelwch tân yn Rhan 3(i) mewn ymateb i bryderon am ddiogelwch adeiladau.
5.4.13 Cafodd hyblygrwydd posibl o ran arwynebeddau llawr ei gynnwys yn safon gofod Atodiad B.
5.4.14 Diwygiwyd Atodiad A i egluro y bydd gofynion hygyrchedd yn cael eu bodloni drwy gydymffurfio â'r Safon Cartrefi Gydol Oes.
5.4.15 Newidiwyd teitl 3edd golofn Atodiad B i Arwynebedd (llawr) Mewnol Gros m2

## 6. Y Camau Nesaf

6.1 Gofynnir i'r Gweinidog Newid Hinsawdd gymeradwyo'r diwygiadau i'r safon arfaethedig ac yna gyhoeddi llythyr sy'n nodi'r gofyniad ar gyfer pob cartref newydd a gaiff arian grant a chartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy gytundebau cynllunio (o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ac amodau cynllunio ar gyfer cynlluniau a gomisiynir o 1 Gorffennaf 2021.
6.2 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau lansio rhanbarthol i egluro'r gofynion a chynnig cyfleoedd i drafod ymhellach â darparwyr tai.
6.3 Caiff y safon ei hadolygu ymhellach yn 2023.

**Atodiad**

Rhestr o'r holl ymatebwyr fesul categori

| Trydydd Sector gan gynnwys Grwpiau Gweithredu | |
|---|---|
| Age Cymru | Cardiff Cycle City |
| Gofal a Thrwsio Cymru | Disability Advice Project |
| Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor | Newtown U3A (Am aros yn ddienw) |
| Shelter | Tai Pawb / Cymorth Cymru |
| Wheelrights | TPAS Cymru |
| Cyfanswm - **10** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **13%** |

| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | |
|---|---|
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd | Clwyd Alyn |
| Bronafon | Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf |
| Cymdeithas Tai Teuluoedd | Grŵp Cynefin |
| Cartrefi Melin | Cartrefi Cymoedd Merthyr (Am aros yn ddienw) |
| Cartrefi Dinas Casnewydd | Newydd Housing (Am aros yn ddienw) |
| Pobl | Cymdeithas Tai Taf |
| Trivalis | Cymdeithas Tai Wales and West |
| Cyfanswm - **14** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **18%** |

Parhad…

| Awdurdodau Lleol yn cynnwys Parciau Cenedlaethol | |
|---|---|
| Cyngor Caerdydd (Am aros yn ddienw) | Cyngor Sir Gâr |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Parciau Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Dinas Abertawe | Cyngor Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Sir Mynwy (Am aros yn ddienw) |
| Cyngor Sir Ceredigion (Am aros yn ddienw) | |
| Cyfanswm - **15** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **19%** |

| Ymatebwyr mewn rhinwedd breifat | |
|---|---|
| Chris Moorman (Am aros yn ddienw) | John Filce |
| Sustainable Living Solutions | Tony Rayer |
| G Rees (Am aros yn ddienw) | John Charles |
| M Jones (Am aros yn ddienw) | Daniel Parry (Am aros yn ddienw) |
| Joseph Hardwicke | Susan Rodaway (Am aros yn ddienw) |
| Cyfanswm - **10** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **13%** |

Parhad…

| Busnesau yn cynnwys adeiladwyr tai, ymgynghorwyr a chyrff cynrychioliadol | |
|---|---|
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Ffederasiwn Adeiladwyr Tai |
| Ilke Homes (Am aros yn ddienw) | Kingspan (Am aros yn ddienw) |
| Marks Davies (Am aros yn ddienw) | Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol |
| Cymdeithas ALlau Gogledd Cymru a'r Canolbarth | Iechyd Cyhoeddus Cymru/Sefydliad Siartredig Tai Cymru (ar y cyd) |
| Redrow Homes | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| Y Gymdeithas Ynni Cynaliadwy | Wood Knowledge Wales |
| CRSH Architecture and Energy | Vaillant UK LTD |
| Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Deunydd Inswleiddio Gwlân Mwynol | Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) (Am aros yn ddienw) |
| Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymru | |
| Cyfanswm - **19** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **25%** |

| Cyrff Llywodraethol | |
|---|---|
| Comisiwn Dylunio Cymru (Am aros yn ddienw) | Llywodraeth Cymru - yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol |
| Sylw Gweinidog (Mr Irranca-Davies) | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Llywodraeth Cymru - Tîm Datgarboneiddio | Arweinydd Tai ac Adfywio Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| Cyfanswm - **6** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **8%** |

Parhad…

| Academaidd gan gynnwys plant | | |
|---|---|---|
| Met Llundain | | Pupils 2 Parliament |
| Active Building Centre | | |
| Cyfanswm - **3** | Canran yr holl ymatebwyr o'r categori hwn **4%** | |

Gofynnodd cyfanswm o 16 o ymatebwyr (21%) am gael aros yn ddienw.

Gellir cael copïau o'r ymatebion ar gais, ac maent wedi'u golygu fel y bo angen i sicrhau cyfrinachedd.

Diwedd y crynodeb o'r ymatebion.